POMONA AR CYMRU

DREFTADAETH AFALU A SEIDR GELLYG PERAI

Mae'r pomona hwn wedi'i gynhyrchu fel rhan o brosiect 'Treftadaeth Perllannau a Gwneud Seidr yng Nghymru' a ariennir gan Dreftadaeth y Loteri a'i gynnal gan Gymdeithas Perai Seidr Cymru a'i phartneriaid

The Welsh Perry & Cider Society
Cymdeithas Perai Seidr Cymru

Marcher Apple Network

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Canolfan Astudio Storiau George Ewart Evans' Centre for Storytelling

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

Cynnwys

CYDNABYDDIAETH 5
RHAGEIRIAU 6
CYFLWYNIAD 10
LLEOLIAD PERLLANNAU CASGLIADAU O AFALAU A GELLYG A PHERLLANNAU CYMUNEDOL 12
AFALAU TREFTADAETH CYMRU 13
Afal Anghidi (A1757) 13
Afal Ashfield (A1760) 14
Afal Tudwal (A1797) 15
Anglesey Sweet Jane (A1789) 16
Baker's Delicious 17
Bardsey Island Apple (A668) 18
Bitter Owen (A1788) 19
Breakwell's Seedling (A124) 20
Cadwallader (A126) 21
Camlad (A1774) 22
Cissy 23
Cummy Norman (A127) 24
Eliza Bisley Lloyd (A1808) 25
Frederick (A125) 26
Frongoch James Nicholson (A1791) 27
Frongoch Pawl (A1792) 28
Gabalva 29
Gelli Aur 30
Jacob's Snout (A1756) 31
Jac y Do (A1785) 32
Jed's Greenstyles (A1769) 33
Jojo's Delight (A684) 34
Kennedy's Late (A128) 35
Kretchmers Surprise (A1776) 36
Landore 37
Machen 38

Marged Nicolas (A685) 39
Pen Caled (A136) 40
Perthyre (A129) 41
Piccadilly (A1758) 42
Pig Aderyn (A130) 43
Pig yr Wydd 44
Pren Glas (A1812) 45
Rosie Maple (A1771) 46
Tanat Reviver (A1778) 47
Trysor Talog (A1815) 48
Twyn y Sheriff (A134) 49
Welsh Druid 50
Wyatt's Endurance (A1775) 51
GELLYG TREFTADAETH CYMRU 52
Rhagair ar gyfer Gellyg Perai 52
Arwen (P451) 52
Berllanderi Green (P439) 54
Berllanderi Red (P020) 55
Betty Prosser (P408/P409) 56
Brycheiniog Beauty (P458) 57
Burgundy (P023) 58
Cefnydd Hyfryd (P405/412) 59
Chapman's Orange (P024) 60
Clystyrau Cil Hal (P425) 61
Coldbrook (P043) 62
Crystell (P072) 63
Cwm Green (P411) 64
Cwrt Robert Pear (P054) 65
Cyfrinach Scethrog (P461) 66
Dai's Delight (P460) 67
Dingat (P058) 68
Edith (P078/P444) 69
Felin Fach (P064) 70
Fferm Ty Coch (P052) 71

Ffinffrwdd John (P436) 72
Fig Tree (P074) 73
Gellygen Godidog (P455) 74
Gwehelog (P031) 75
Gwehelog Red (P022) 76
Gwern Ddu (P066/P075) 77
Hannah Rose (P431) 78
Hugh's Hyfrydwch (P462) 79
Kingcoed Delight (P415) & Kingcoed Surprise (P416) 80
Lemon Tree (P065) 81
Little Cross Huffcap (P027) 82
Llanfocha (P062) 83
Llanover (P413) 84
Llanyrafon Manor (P430) 85
Mill Bank Jessica (P410) 86
Monmouth Red (P034) 87
Perai Hafod (P418) 88
Perai St Maughans (P417) 89
Potato Pear (P032/P068) 90
Pwll Pisgod (P056) 91
Rhydlydan (P021) 92
Sant Gwytherin (P048) 93
Seren Scethrog (P459) 94
Top Tree (P041/P045/P071) 95
Tredomen Twins (P456) 96
Trothy (P059) 97
Trysor Tredomen (P454) 98
Ty Gwyn (P039) 99
Tynllywyn Wye Valley (P428) 100
Tywysog Tredomen (P457) 101
Water Cracking (P049/P051) 102
AMRYWIAETHAU ERAILL TREFTADAETH CYMRU 103
Afalau 103
Afal y Cwmafan (A1784) 103

Crunwere Beauty (A1799) 103
Garreg Ddu Dylan (A1813) & Garreg Ddu Llwyd (A1814) 103
Marlow's Welsh Beauty (A1772) & Marlow's Welsh Bounty (A1773) 104
Red Stag (A1770) 104
Gellyg 105
Capel Hir Early & Capel Hir Late 105
Llanarth Early (P035) 105
Montagu's Endurance (P400) 105
Summer Pear (P055) 105
Pitt Pear (P038) 106
Yorke's Perai (P046) 106
Ffrwythau y credwyd yn flaenorol eu bod o Gymru 106
GWEFANNAU DEFNYDDIOL 108
LLYFRAU DEFNYDDIOL 108

CYDNABYDDIAETH

Dymuna Tîm Treftadaeth Cymdeithas Perai Seidr Cymru ddiolch i'r isod;

- Cronfa Treftadaeth y Loteri am ariannu'r prosiect hwn, ond hefyd i chwaraewyr y Loteri. Heb eu cefnogaeth ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosib.
- Cyn-gyfarwyddwyr a chyfarwyddwr cyfredol Cymdeithas Perai Seidr Cymru; ni ellid fod wedi cynnal y prosiect hwn hebddynt. Diolch yn arbennig i'r Cadeirydd - Sally Perks.
- Ein Partneriaid yng Nghanolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans ym Mhrifysgol De Cymru.
- *Marcher Apple Network*
- Dave Matthews – crëwr y casgliad gwreiddiol o afalau a gellyg.
- Aelodau Cymdeithas Perai Seidr Cymru – cynhyrchwyr a chyfeillion.
- Cymdeithas Genedlaethol Gwneuthurwyr Seidr
- Y perchnogion coed a gymerodd ran
- *National Fruit Collection* Brogdale
- Matt Ordidge – Prifysgol Reading
- Peter Laws – *Fruit ID*
- Dr Andrew Lea - Gwyddonydd Seidr
- Richard Toft – Coleg Pershore
- John Worle - Meithrinwr
- Ian Sturrock - Meithrinwr
- Jim Chapman – Curadur Casgliad Cenedlaethol Gellyg Perai
- Paul Davis - Meithrinwr
- Bill and Chava Bleasdale – Perchnogion Meithrinfa a Gwneuthurwyr Seidr
- Tom Adams - Meithrinwr
- Steve Oram – Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl
- Alison Crook – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Glyn Smith - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Hazel Robinson - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Danny Thorogood – Prifysgol Aberystwyth
- Y Tîm Treftadaeth yng Nghymdeithas Perai Seidr Cymru - Jayne Hunt, Shan Rimmer, Niamh Breslin, Anna Waldron, Diana Berriman a'n Partneriaid ym Mhrifysgol De Cymru - Emily Underwood-Lee a Catrin James.
- Ac i bawb arall fu'n cynorthwyo ar hyd y ffordd – diolch

RHAGEIRIAU

Pan lansiwyd y prosiect hwn gennym, ni allai unrhyw un ohonom fod wedi rhagweld llwyddiant mawr ganlyniadau'r profion DNA a ddeuai ohono. Roeddem yn gobeithio dod o hyd i rai amrywiaethau unigryw, ond ni ragwelwyd y byddai cymaint o amrywiaeth o afal seidr a gellyg perai sydd wedi'u canfod yng Nghymru'n unig. Mae'r llwyddiant hwn ynddo'i hun yn arwain at heriau i'r rhai sy'n ymwneud yn agos â'r prosiect, gyda llawer mwy o waith dilynol nag a ragwelwyd gennym i ddechrau. Heb help a chymorth cymaint o arbenigwyr ar amrywiaethau treftadaeth a chefnogwyr yr amrywiaethau hyn, ni allwn fyth fod wedi cael canlyniadau mor gynhwysfawr mewn cyfnod mor fyr.

Sally Perks

Cadeirydd Cymdeithas Perai Seidr Cymru 2018

Dave Matthews
Sefydlwr Cymdeithas Perai Seidr Cymru; Bartestree Cider

Mae'n hwyr glas cael llawlyfr sy'n manylu ar yr holl amrywiaethau o afalau seidr a gellyg perai Cymru a rhoddir croeso cynnes iddo.

Pan sefydlwyd Cymdeithas Perai Seidr Cymru yn ôl yn 2001, ychydig iawn o gyfeiriadau oedd at ffrwythau o Gymru yn y llenyddiaeth. Roedd gan Swydd Henffordd ei Llawlyfrau Fictoraidd a gynhyrchir gan Glwb Naturiolwyr Woolhope, ac yn niwedd yr 20fed ganrif, cyhoeddodd Bulmers eu cyfrol eu hunain. Cynrychiolwyd Swydd Gaerloyw gan lyfr gwych *Perry Pears*, Ray Williams o'r 1960au, ac roedd gan Wlad yr Haf Liz Copas i ddiolch iddi am Lawlyfr afalau a gyhoeddwyd ar ddechrau'r Mileniwm newydd. O ran Cymru, ni allwn ddod o hyd i unrhyw gyfeiriadau (yn ôl yn 2001) at amrywiaethau gellyg perai o Gymru, a thri math o afal seidr yn unig a ddaeth i'r amlwg - 'Frederick', 'Perthyre' a 'Breakwell's Seedling'.

Felly, ynghyd â'm partner ffyddlon, Martyn Evans, es ar daith i berllannau seidr ym Mynwy, gan gyfweld â'r hen ffermwyr, a throi eu hafalau a'u gellyg yn seidr a pherai. Dro ar ôl tro, byddai'r hen hogiau'n ein tywys ar daith o'u perllan, gan fethu cofio enwau'r amrywiaethau. Roedd 'Pe bawn i ond wedi cymryd mwy o sylw pan oedd Taid yn dweud eu henwau wrthyf' yn sylw nodweddiadol. O'r herwydd, ychydig iawn o'r gwir enwau am yr amrywiaethau o Gymru a ganfuom - roedd rhai eithriadau megis gellyg fel 'Gellygen Datws' ac afalau gan gynnwys 'Cadwallader'. Y rhan fwyaf o'r amser, roedd rhaid i ni ddarganfod enwau ein hunain, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r arferion enwi presennol.

Byddai Martyn a minnau'n dychwelyd i'r ffermydd ym mis Ionawr, gan gymryd toriadau ac yn eu postio i Paul Davis yn ei Feithrinfa yn Nolau Hirion. Byddai Paul yn eu trawsblannu ar wreiddgyff, a'r coed a ddeilliai o hyn oedd yn sail i'n Casgliad cyntaf gydag Sally a James Perks yn *Raglan Cider Mill*.

Yn fwy diweddar, cafodd Cymdeithas Perai Seidr Cymru Arian Treftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect perllannau. Mae profion DNA wedi caniatáu iddynt nodi'n gywir yr amrywiaethau unigryw o Gymry, ac mae treialon eplesu wedi rhoi gwybodaeth werthfawr am eu defnyddioldeb. Mae'r Fam gasgliad wreiddiol yn Sir Fynwy bellach wedi cael ei dyblygu i nifer o safleoedd ledled Cymru, ac mae'r rhain yn gweithredu fel banc genetig amhrisiadwy, gan ei gwneud yn bosib i wneuthurwyr seidr yn y dyfodol allu plannu amrywiaethau treftadaeth leol ar eu tir eu hunain. Mae'r llawlyfr gwych hwn yn ategu'r casgliadau hyn - llawlyfr gwirioneddol o seidr a pherai Cymru.

Paul Davis
Meithrinwr

Bum mlynedd ar hugain yn ôl, gofynnodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru i mi drawsblannu rhai amrywiaethau unigryw o afal Dinefwr, a gydnabyddir gan Marcher apple network, i'w gwerthu i ffermwyr yn y cynllun Tir Cymen. Dechreuais gydag ychydig o gyffion yn y gegin a gorffen gyda busnes bach gwledig yn trawsblannu a gwerthu coed ffrwythau ifanc, yn benodol o darddiad Cymreig. Ers hynny, rwyf wedi bod yn ymwneud â sefydlu casgliadau o afalau a gellyg ar gyfer Marcher apple network, Ymddiriedolaeth Tidnor Orchard, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ogystal ag ar gyfer Cymdeithas Perai Seidr Cymru. Pan ddechreuais, prin lond llaw o amrywiaethau y gwyddys eu bod yn tarddu o Gymru. Nawr, diolch i waith brwdfrydig sefydliadau fel y rhain, mae nifer fawr o amrywiaethau unigryw o afalau a gellyg Cymru wedi'u hailddarganfod a'u nodweddu. Mae'r llyfr hwn wedi'i ddarlunio'n dda ac mae'n frith o hanesion diddorol a bydd yn atodiad i'w groesawu ac yn un defnyddiol yn llyfrgell unrhyw bomolegydd.

I'r rhai ohonoch a gredai nad oedd unrhyw amrywiaethau o afalau o Gymru - darllenwch ymlaen!

Marcher apple network

Heddiw, mae cysylltiad y cyhoedd ag afalau yn bennaf trwy lond llaw o amrywiaethau masnachol yn yr archfarchnad leol, neu efallai o goeden afalau a esgeuluswyd mewn gardd ac a ddaw o amrywiaeth anhysbys. Gan mlynedd neu fwy yn ôl byddai bron pob pentref a phlwyf wedi bod â chyfoeth o afalau lleol, llawer ohonynt yn unigryw i'r ardal honno. Byddai eginblanhigion fyddai wedi digwydd cymryd ac yr ystyrid gan rywun yn lleol i fod yn "afal da" wedi cael eu trawsblannu a'u rhannu gyda rhai ffrindiau a chymdogion ... Efallai na fyddai llawer o'r afalau rhanbarthol hyn wedi bodoli'r tu hwnt i lond llaw o blwyfi ac, felly, roeddynt mewn perygl o ddiflannu. Mae rhai wedi eu gwasgaru ymhellach i ffwrdd ... ac wedi mynd ymlaen i fod yn amrywiaethau mwy cydnabyddedig.

Rydym ni yn Marcher apple network wedi treulio'r 25 mlynedd diwethaf yn chwilio am afalau lleol y Gororau. Bellach mae Cymdeithas Perai Seidr Cymru, dan arweinyddiaeth Jayne Hunt, wedi gwneud gwaith gwych wrth ddod o hyd i amrywiaethau o bob cwr o Gymru a'u catalogio, gan eu nodweddu a'u lluosogi, sefydlu'r casgliadau ac, wrth wneud hynny, sicrhau bod llai o berygl i'r amrywiaethau hyn fynd ar ddifancoll. Mae'r enwau a'u storïau cysylltiedig yn gipluniau gwych o'r gorffennol. Mae tyfu unrhyw un o'r coed hyn heddiw'n golygu tyfu darn o hanes byw Cymru.

Yma, am y tro cyntaf, ceir cofnod o'r mwyafrif o afalau a gellyg o Gymru y gwyddys amdanynt, gyda'i gilydd mewn un lle, cofnod hyfryd o'r unigryw a'r hyn sy'n wahanol yn lleol. Yn sicr, bydd yn ysgogi ymdrechion i ddod o hyd i amrywiaethau mwy traddodiadol eto fyth a'u cadw.

Dr Andrew Lea
Gwyddonydd Seidr

Mae afalau a gellyg ymhlith cnydau domestig mwyaf amrywiol ac addasadwy Ewrop, gan gyrraedd yma'n wreiddiol trwy lwybrau masnach o goedwigoedd Canolbarth Asia. Mae'n bosib y bydd pob had yn amrywiaeth newydd, a all sefydlu a ffynnu yn ei leoliad newydd, ac nid yw Cymru'n eithriad. Ond er bod yr amrywiaethau masnachol mawr o ffrwythau Prydain wedi'u catalogio a'u cyfeirio ers tro, nid yw'r un peth yn wir am amrywiaethau lleol yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn ein hynysoedd. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Llawlyfr Cymreig newydd hwn o afalau a gellyg yn brosiect i'w groesawu. Am y tro cyntaf, mae amrywiaethau lleol Cymru o afalau a gellyg wedi'u disgrifio a'u nodweddu, tra bod dadansoddiad DNA modern wedi cadarnhau eu tarddiad unigryw. Nid yw llawer ohonyn nhw wedi'u cyfeirio erioed o'r blaen. I rai, ymchwiliwyd i'w cyfraniad posib i seidr a pherai trwy dreialon un amrywiaeth, sydd wedi cadarnhau bod yna rai afalau seidr a gellyg perai gwych yn eu plith. Rwy'n croesawu dechreuwyr a threfnwyr y prosiect hwn. Maent wedi cynhyrchu gwaith yr oedd yn hwyr glas ei gael ac a all sefyll yn falch ochr yn ochr â llawlyfrau eraill Prydain ac Ewrop ar afalau a gellyg wrth ddathlu amrywiaeth yr afalau a'r gellyg sydd wedi'u meithrin yng Nghymru.

Alison Crook
Curadur Casgliadau Planhigion, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Llyfr hynod ddefnyddiol a diddorol, yn amlygu amrywiaeth ac arwyddocâd afalau a gellyg treftadaeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrth ei boddau o fod wedi gweithio gyda'r prosiect i helpu i sicrhau llawer o'r amrywiaethau hyn ar gyfer y dyfodol. Rydym nawr yn aros yn eiddgar am y seidr a'r perai.

Dr Danny Thorogood
Prifysgol Aberystwyth

Mae Prifysgol Aberystwyth yn falch iawn o gael gwahoddiad i letya un o dri chasgliad Afalau a Gellyg Treftadaeth Cymru fydd yn cynnwys y casgliad amrywiol o gyltifarau a ddisgrifir yn y llyfr hwn. Rydym yn siŵr y bydd y llyfr hwn a'r gwaith ymchwil parhaus ar afalau a gellyg o Gymru a ganfuwyd ac a ailganfuwyd yn ystod y prosiect "Treftadaeth Perllannau a Gwneud Seidr yng Nghymru" yn cynyddu ymwybyddiaeth o adnodd genetig amhrisiadwy ac unigryw a gedwir am sawl cenhedlaeth i ddod.

Fenella Tyler
Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Gwneuthurwyr Seidr

Mae'r llawlyfr hwn yn gymaint mwy na chasgliad gweledol gwych o amrywiaethau o afalau a ganfuwyd yng Nghymru. Mae'n adrodd hanes prosiect gwych a ddechreuodd ddwy flynedd a hanner yn ôl, gan ddod â hanes o berllannau afalau seidr a gwneud seidr ledled Cymru dros amser - hanes sydd bron wedi mynd yn angof.

Penllanw'r gwaith caled a'r penderfyniad a aeth i mewn i godi arian ar gyfer y prosiect, gan gael cefnogaeth arbenigwyr gwneud seidr a phomoleg a nodi nifer fawr o amrywiaethau o afalau nad oeddynt wedi'u cofnodi, yw llyfr fydd yn eistedd yn falch iawn ochr yn ochr â llawlyfrau eraill Swydd Henffordd, Swydd Gaerloyw a Gwlad yr Haf ar afalau a gellyg.

Richard Bellamy
Pennaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wrth eu bodd eu bod wedi ariannu'r prosiect Treftadaeth Perllannau a Gwneud Seidr yng Nghymru ac mae'r Pomona yn tynnu sylw at faint sydd wedi'i gyflawni. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith caled enfawr sydd wedi'i roi i adnabod pob un o'r amrywiaethau a chreu adnodd mor ddefnyddiol y gall cymaint o bobl a phrosiectau eraill ei rannu a'i ddefnyddio. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol y gallwn ariannu prosiectau fel hyn a all wneud gwahaniaeth go iawn i'n treftadaeth yng Nghymru a hefyd roi gwaddol y gellir ei ddefnyddio gan genedlaethau'r dyfodol.

CYFLWYNIAD

Roedd **Treftadaeth Perllannau a Gwneud Seidr yng Nghymru** yn brosiect a ariannwyd gan Dreftadaeth y Loteri mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru ac oedd yn rhedeg am ychydig dros ddwy flynedd a hanner o 2016 i 2018.

Roedd y prosiect yn cynnwys tri phrif faes gwaith, ac roedd y cyntaf yn ymwneud â gweithio gyda grwpiau perllannau cymunedol i blannu perllannau treftadaeth ledled Cymru, a'u hyfforddi i gynnal a chadw perllannau a gwneud seidr.

Cafodd yr ail faes ei redeg gan Ganolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans ym Mhrifysgol De Cymru. Cawsant y dasg o greu archif ddigidol, "Stori Fodern Gwneud Seidr yng Nghymru". Bu iddynt gasglu 89 o straeon, y gellir eu gweld ar ein gwefan ac fe'u cynhelir yng Nghasgliad y Werin Cymru - mae manylion y ddau i'w gweld yn yr adran gwefannau defnyddiol.

Roedd y trydydd maes gwaith yn ymchwilio i amrywiaethau y tybiwyd eu bod o dreftadaeth Cymru. Cafodd profion DNA eu cynnal ar goed seidr a pherai ledled Cymru i ganfod eu hamrywiaeth. Datgelwyd bod 73 o'r rhain yn amrywiadau nad oeddent wedi'u cofnodi o'r blaen o'u cymharu â chronfa ddata *National Fruit Collection* Brogdale. Rhoes eu perchnogion enwau i'r rhain, ac fe'u cyflwynwyd i'w cofrestru (efallai y bydd enwau terfynol yn wahanol i'r rhai a roddir yma, ac efallai na fydd rhai amrywiaethau'n cael eu derbyn ar y gronfa ddata oherwydd nad oes gwybodaeth gefndirol am yr amrywiaeth neu dystiolaeth o darddiad).

Yn ystod y gwaith ymchwil, canfuwyd nad oedd afalau seidr yn hanesyddol yn cael eu tyfu yng Ngogledd Cymru, felly ehangodd y tîm ei gylch gorchwyl Gogledd Cymru i gynnwys pob afal, nid afalau seidr yn unig. Dylid nodi hefyd y gellir defnyddio unrhyw afal ar gyfer seidr, ond mewn afalau seidr y mae'r blasau gorau i'w cael.

Roedd sawl math o seidr a pherai o Gymru wedi'u dogfennu'n flaenorol; mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys yn y llawlyfr hwn lle profwyd eu bod o Gymru trwy brofion DNA a gomisiynwyd gan sefydliadau eraill megis Marcher apple network. Dylid nodi hefyd y profwyd trwy brofion DNA bod nifer o afalau, y credwyd yn flaenorol eu bod yn afalau o Gymru, yn amrywiaethau o Loegr neu Ffrainc. Bydd Marcher apple network yn parhau gyda'r gwaith hwn ac nid oes amheuaeth yr ailddarganfyddir mwy o amrywiaethau o Gymru.

Cynhaliwyd **treialon eplesu un amrywiaeth** gan Dr Andrew Lea ar amrywiaethau a ddewiswyd i ddatblygu proffiliau blas, fydd yn werthfawr i wneuthurwyr seidr sy'n bwriadu defnyddio'r amrywiaethau hyn yn eu cynnyrch. Disgrifir y canlyniadau o ran disgyrchiant penodol (DP) a lefelau asid a thannin.

Casgliad o afalau a gellyg Treftadaeth Cymru. Lluosogwyd llawer o'r amrywiaethau hyn gan John Worle, Ian Sturrock, Paul Davis, Bill Bleasdale a Tom Adams er mwyn creu casgliad o afalau a gellyg. Bydd yr amrywiaethau hyn yn adnodd genetig i sicrhau eu cânt eu diogelu fel rhan werthfawr o dreftadaeth naturiol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r casgliadau hyn bellach wedi'u lleoli yng nghampws IBERS Prifysgol Aberystwyth ac yn nau eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Neuadd Erddig yn Wrecsam a Gerddi Dyffryn ym Mro Morgannwg. Mae casgliad Cymdeithas Perai Seidr Cymru wedi'i rannu ar draws dau safle, un yn Llanarth ac un y tu allan i Frynbuga.

Llawlyfr Afalau a Gellyg Cymru. Mae Marcher Apple Network wedi bod yn gymorth mawr ac yn ffynhonnell gwybodaeth heb ei hail ran afalau. Maent wedi cytuno'n garedig iawn i rannu eu gwybodaeth a'u lluniau o'r afalau y gwyddys a ddaw o Gymru gyda ni, felly, am y tro cyntaf, gallwn ddod â'r holl afalau y gwyddys amdanynt ac sydd wedi'u profi trwy DNA, ynghyd mewn un lle. Penllanw'r gwaith hwn yw'r llawlyfr hwn o Afalau a Gellyg Cymru.

Yn y catalog hwn mae gwybodaeth am yr amrywiaethau o dreftadaeth Cymru a gadarnhawyd neu a ganfuwyd drwy'r prosiect (ac eithrio'r rhai a rennir gan Marcher Apple Network), gan gynnwys manylion eu hanes, y ffrwyth a'u defnydd. Casglwyd y wybodaeth hon gan y tîm Treftadaeth a gwirfoddolwyr ym mhob tywydd, haul, glaw ac eira, ar draws pob math o dir! Ein gobaith yw eich bod yn mwynhau'r llawlyfr hwn cymaint ag y gwnaethom ni yn casglu'r holl wybodaeth ar ei gyfer.

Jayne, Shan, Niamh, Diana, Anna & Sally

*Mae'r wybodaeth yn gywir hyd eithaf ein gwybodaeth adeg cyhoeddi (Rhagfyr 2018) - Gall profion DNA yn y dyfodol brofi y gall rhai cyltifarau fod yn wahanol i'r hyn a gredwn ar hyn o bryd, ac mae gwaith cofrestru ffrwythau yn parhau i fod angen ei wneud.

* Yr holl luniau wedi'u tynnu gan dîm y prosiect oni nodir fel arall.

EGLURHAD

Amrywiaethau yn un neu fwy o'r casgliadau.

Amrywiaethau a gynhwysir yn y treialon eplesu un amrywiaeth, gyda chanlyniadau

Afal neu ellygen wedi'i gofnodi/chofnodi'n flaenorol.

Marcher Apple Network

Gwybodaeth a/neu luniau gan Marcher Apple Network.

LLEOLIAD PERLLANNAU CASGLIADAU O AFALAU A GELLYG A PHERLLANNAU CYMUNEDOL

Perllannau Cymunedol

1. Coed Llwynnon 2. Fferm Moelyci
3. Llanberis 4. Conwy 5. Brymbo
6. Cae Bodfach 7. Treginnis
8. Pembroke 21C 9. Down to Earth
10. Glyn-nedd 11. Tal-y-bont ar Wysg
12. Blaen Brân 13. Transition Chepstow

Perllannau Casgliadau o Afal a Gellyg

A. Campws IBERS Prifysgol Aberystwyth
B. Neuadd Erddig, Wrecsam
C. Gerddi Dyffryn, Bro Morgannwg
D. Perllannau Casgliadau o Afalau a Gellyg Cymdeithas Perai Seidr Cymru
- Llanarth (1) a Llantrisant (2)

AFALAU TREFTADAETH CYMRU

Afal Anghidi (A1757)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu mewn gardd ar lannau afon Anghidi Fawr, afon fach sy'n llifo i mewn i Afon Gwy ger Abaty Tyndyrn. Mae'r ardd yn perthyn i fwthyn y dywedir y bu unwaith yn dafarn o'r enw, The Globe, oedd yn gweini seidr i'r dynion a weithiaI yn y gweithfeydd haearn cyfagos, ac i borthmyn a ddeuai â gwartheg at Afon Wysg i'w llwytho i mewn i gychod camlas a'u hanfon i farchnadoedd. Bryste. Cred pobl leol bod y goeden o leiaf 100 oed. Defnyddiwyd yr afalau i wneud seidr gan ffermwr a ddeuai i'r bwthyn gyda'i wasg seidr symudol, hyd at mor ddiweddar â'r 1950au, ac mae'r perchnogion presennol hefyd wedi gwneud seidr o'r ffrwythau.

Blodyn: Petalau gwyn gydag ychydig o binc. Antherau brown. Hwyr mis Mai.

Ffrwyth: Afalau conigol, canolig eu maint gyda chroen melyn a rhimyn o goch, ac ychydig iawn o groen garw, browngoch. Coesau preniog byr. Afalau'n disgyn ym mis Medi.

Defnydd: Mae'r afalau'n felys ac yn cadw eu siâp yn dda wrth goginio. Maent hefyd yn gwneud cylchoedd afal sych ardderchog. Er bod modd ei bwyta'n amrwd, mae eu gwead ffibrog, rwber, yn eu gwneud yn fwyaf addas ar gyfer gwneud sudd a seidr.

.

Llun o'r blodyn wedi'i roi gan berchennog y goeden.

Afal Ashfield (A1760)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu yng ngerddi garddwriaethol Menter Gymunedol Ashfield yn Hawau, Llandrindod. Nid oes hanes y gwyddys amdano o wneud seidr o'r goeden hon.

Ffrwyth: Afalau gwyrdd, bach a chrwn iawn gyda rhimyn coch ar yr ochr sy'n cael yr haul a dim croen garw, browngoch.

Defnydd: Blas siarp gydag awgrym o felysrwydd ac ychydig o dannin – nodweddion afalau coginio a seidr.

Afal Tudwal (A1797)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu mewn hen berllan ynghlwm wrth ficerdy yn Llanstadwel, Sir Benfro. Daw'r enw o Sant Tudwal, y credir ei fod yn un o sylfaenwyr Llydaw, ac ar ei ôl ef y mae Llanstadwel wedi'i enwi ("Llan Tudwal").

Ffrwyth: Afalau gweddol grwn, canolig eu maint gyda chroen gwyrdd / melyn golau. Yn aml mae gan y ffrwythau rhyw gochder a rhimyn o groed garw, browngoch o amgylch gwaelod y goes ddofn. Mae'r coesyn yn drwchus, weithiau'n oddfog ac yn fyr iawn.

Defnydd: Mae'r blas yn siarp ond nid yw'n annymunol– fe'u defnyddir fel afal coginio ac ar gyfer seidr.

Anglesey Sweet Jane (A1789)

Enw arall: “Sweet Jane”

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu ar dir ar Ynys Môn oedd unwaith ym mherchenogaeth yr Arglwydd a'r Arglwyddes Boston. Mae mam y perchennog presennol - sydd yn ei 80au - yn cofio'r goeden o'i phlentyndod, felly credir bod y goeden o leiaf 100 oed. Daw enw’r amrywiaeth o enw chwaer y perchennog, a blas melys yr afal.

Ffrwyth: Mae’r afalau’n siâp afreolaidd ac yn amrywio o ran eu maint, er eu bod yn ganolig ac yn eithaf crwn, gan fwyaf. Mae'r croen yn felyn gyda rhimyn o olau gwyrdd, gyda chroen garw, browngoch o amgylch gwaelod y coesyn. Mae'r coesyn yn fyr ac yn breniog.

Defnydd: Mae’r ffrwythau’n eithaf melys, afal bwyta yn fwyaf tebyg.



Baker’s Delicious

Mae hon yn hen amrywiaeth enwog o Dde Cymru y mae ei enw a'i hanes gwreiddiol bellach wedi mynd ar ddifancoll. Cafodd ei ailddarganfod mewn gwrych a rhoddwyd yr enw presennol iddo yn 1932.

Ffrwyth: Afalau crwn-gonigol, canolig eu maint gyda chroen melynwyrdd wedi'i orchuddio'n bennaf gan gochder llachar a rhywfaint o stribedi coch. Rhyw gymaint o groen garw, browngoch o amgylch y coesyn. Mae’r cig yn lliw hufen, cyfoethog a llawn sudd. Tymor cynnar - yn aeddfed ym mis Medi.

Defnydd: Cig cyfoethog a llawn sudd gyda llawer o siwgr ac asidedd. Blas cryf a phersawrus - afal pwdin.

Gwybodaeth gan Ian Sturrock www.iansturrockandsons.co.uk

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Savidge (Marcher Apple Network) i ailgynhyrchu’r lluniau.

Bardsey Island Apple (A668)

Ynys fechan oddi ar Benrhyn Llŷn, ar arfordir gogledd-orllewin Cymru yw Ynys Enlli. Ym 1998, cododd yr adaregwr, Andrew Clarke afalau oedd wedi syrthio o hen goeden geinciog ar Enlli a sylwi nad oedd iddynt unrhyw arwydd o glefyd megis pydredd a chrach. Aeth â'r ffrwythau at y meithrinwr Ian Sturrock i'w hadnabod ac anfonodd yntau nhw ymlaen i'r *National Fruit Collection* yn Brogdale, Swydd Caint. Yma datganodd y prif hanesydd ffrwythau, y Dr Joan Morgan fod y ffrwyth a'r goeden yn unigryw ac, felly, cafodd ei enwi ar ôl yr ynys lle y'i Canfuwyd. Awgrymwyd bod Afal Enlli'n debygol o fod yn ddisgynnydd i goed afalau a blannwyd gan fynachod canoloesol oedd yn byw ar yr ynys, gan y cafwyd hyd iddo ger gweddillion abaty 13eg ganrif.

Blodyn: Petalau gwyn yn bennaf gyda rhai smotiau pinc, antherau oren.

Ffrwyth: Afalau crwn-gonigol, canolig eu maint gyda phersawr lemon unigryw. Croen melyn wedi'i orchuddio'n bennaf gyda stribedi orengoch. Yn aeddfedu ddiwedd mis Medi.

Defnydd: Mae'r blas yn felys ac ychydig yn siarp - afal amlbwrpas y mae modd ei ddefnyddio ar gyfer coginio, gwneud sudd a seidr, ond mae hefyd yn ddymunol i'w fwyta'n ffres. Mae'r seidr yn gorffin tenau a miniog, DP 1.048, asid 0.6%, tannin 0.06%.

Gwybodaeth a lluniau gan Ian Sturrock http://www.bardseyapple.co.uk/

Bitter Owen (A1788)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu ar dir ar Ynys Môn oedd unwaith ym mherchenogaeth yr Arglwydd a'r Arglwyddes Boston. Mae mam y perchennog presennol - sydd yn ei 80au - yn cofio'r goeden o'i phlentyndod, felly credir bod y goeden o leiaf 100 oed. Daw enw'r amrywiaeth o enw brawd y perchennog, a blas chwerw'r afal.

Ffrwyth: Mae'r afalau'n ganolig eu maint ac yn afreolaidd eu siâp. Gwyrdd gyda strimyn o groen garw, browngoch o waelod y coesyn. Mae'r coesyn yn fyr iawn ac yn oddfog.

Defnydd: Mae blas chwerw siarp i'r ffrwyth - nodweddion - seidr.




Breakwell’s Seedling (A124)

Daeth yr amrywiaeth hon o Fferm Perthyre, Trefynwy ddiwedd y 1800au. Fe'i lluosogwyd gan George Breakwell, a gyflwynodd yr amrywiaeth hefyd i Bulmers fel amrywiaeth seidr werthfawr sy’n aeddfedu’n gynnar.

Blodyn: Gwyn, yn blodeuo’n llawn yr ail wythnos o Fai.

Ffrwyth: Ffrwythau crwn bach i ganolig eu maint. Croen gwyrddfelyn ysgafn wedi'i orchuddio'n bennaf gyda stribedi coch. Coesyn byr. Ychydig iawn o groen garw browngoch, rhywfaint o amgylch y coesyn. Yn aeddfedu ganol mis Medi.

Defnydd: Amrywiaeth siarp a chwerw sy’n cynhyrchu seidr tenau, ysgafn, cyffredin, sy'n dda ar gyfer cyfuno. DP 1.034, asid 0.7%, tannin 0.23%

Gwybodaeth o’r National Fruit Collection.

Cadwallader (A126)

Hen amrywiaeth o afal seidr Aberhonddu yw hon. Trawsblannodd Dave Matthews (sylfaenydd Cymdeithas Perai Seidr Cymru, *Bartestree Cider*) ddarn o goeden union dros y ffin yn Swydd Henffordd, y dywedwyd wrtho gan y ffermwr mai amrywiaeth o Gymru o'r enw Cadwallader oedd. Roedd y goeden yn hen iawn a bu farw'n fuan ar ôl y trawsblaniad. Anfonwyd y trawsblaniad at Paul Davies ym meithrinfeydd Dolau Hirion ar gyfer ei luosogi, a bellach caiff Cadwallader ei dyfu a'i werthu'n fasnachol.

Blodyn: Petalau gwyn a phinc ac antherau melyn, yn blodeuo'n gynnar ym mis Mai.

Ffrwyth: Afalau crwn â chroen gwyrdd a chochder ar yr ochr sy'n cael yr haul. Croen garw, browngoch yng ngwaelod y coesyn dwfn sydd weithiau'n strimynnau ar y bochau. Mae'r coesau'n fyr ac yn drwchus. Yn aeddfedu'n gynnar ym mis Hydref.

Defnydd: Afal seidr chwerwfelys ysgafn gyda rhywfaint o bersawr, fe'i defnyddir orau mewn cyfuniad. DP 1.049, asid 0.3%, dim tannin.

Camlad (A1774)

Mae coeden wreiddiol yr amrywiaeth hon yn tyfu mewn perllan yn agos at y Camlad - nant sy'n enwog am mai hon yw'r unig un sy'n codi yn Lloegr ac yn llifo i Gymru. Mae'r Camlad yn dilyn y ffin am lawer o'i hyd ac mae'n croesi'r ffin mewn sawl man. Mae'r goeden ar ochr Cymru ger y Trallwng a chredir iddi fod yno ers sawl cenhedlaeth.

Ffrwyth: Ffrwyth gwyrdd gyda rhyw gymaint o binc / coch, sy'n gorchuddio'r rhan fwyaf o'r afal pan fydd yn aeddfed. Yn grwn gan fwyaf, er bod rhai yn hir. Ychydig iawn o groen garw, browngoch. Coesau tenau, byr. Yn aeddfedu ym mis Hydref.

Defnydd: Asid a thaninau – fe'u defnyddir ar gyfer seidr gan John Jenkins o *Old Monty Cider*.

Lluniau wedi'u rhoi gan John Jenkins.

Cissy

Mae'r amrywiaeth hon yn dyddio o'r 1790au, wedi iddi gael ei darganfod ger Casnewydd, ac roedd yn un o'r amrywiaethau mwyaf poblogaidd o Sir Fynwy ar y pryd a dyfwyd ar gyfer y farchnad. Mae'r amrywiaeth wedi'i henwi ar ôl chwaer perchennog y goeden wreiddiol, oedd yn parhau i rannu trawsblaniadau o'r goeden ar ôl ei farwolaeth.

Ffrwyth: Afalau crwn i hirgrwn o faint canolig. Mae'r croen yn felyn, er y caiff ei orchuddio'n helaeth gyda chochder a strimynnau. Nid yw'r lentiselau'n amlwg ac maent yn fach a brown. Mae siâp twmffat i'r coesyn. Tyfa'r afalau'n bennaf ym mrig y canghennau gan aeddfedu ym mis Medi.

Defnydd: Mae'r cig yn grisbin a llawn sudd ac mae iddo flas dymunol - afal pwdin.

Gwybodaeth o "Welsh Marches Pomona" gan Michael Porter

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Savidge (Marcher Apple Network) i ailgynhyrchu'r lluniau.

Cummy Norman (A127)

Credir ei fod wedi tarddu o Cummy, Sir Faesyfed (bellach yn rhan o Bowys), ailganfuwyd yr amrywiaeth hon gan Bulmers a'i defnyddio ar gyfer seidr.

Blodyn: Pinc a gwyn. Yn blodeuo'n llawn yr ail wythnos o Fai.

Ffrwyth: Afalau crwn bach i ganolig eu maint. Mae'r croen yn wyrdd gyda chochder tywyll. Croen garw, browngoch o amgylch y coesyn gyda rhywfaint o rimynnau ar y bochau.

Defnydd: Afalau seidr siarp chwerw/melys a chytbwys gyda phersawr o ansawdd da a'r posibilrwydd o'u defnyddio fel un amrywiaeth. DG 1.053, asid 0.35%, dim tannin.

Gwybodaeth o'r National Fruit Collection.

Eliza Bisley Lloyd (A1808)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu yng ngardd "Tŷ Llwyd", Rhaeadr Gwy, Powys, a adeiladwyd ym 1894. Eliza Bisley Lloyd oedd nain y perchnogion presennol. Priododd â'r teulu yn gynnar yn y 1900au a byddai wedi bod yn byw yn y tŷ adeg plannu'r goeden.

Blodyn: Petalau gwyn a phinc. Antherau melyn golau. Yn gynnar ym mis Mai.

Ffrwyth: Mae'r afalau'n fach ac yn wyrdd tywyll gyda darnau o gochder. Mae'r rhan fwyaf yn grwn er bod rhai yn hirgron. Ychydig iawn o groen garw, browngoch.

Defnydd: Blas siarp, chwerw - nodweddion seidr.



Llun y Blodyn wedi'I roi gan berchennog y goeden.

Frederick (A125)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn y 19eg ganrif ar ochr Sir Fynwy o Fforest y Ddena, ac erbyn hyn mae bellach yn amrywiaeth adnabyddus sydd ar gael yn eang fel afal seidr.

Blodyn: Gwyn gyda rhywfaint o binc, yn blodeuo'n llawn yr ail wythnos o Fai.

Ffrwyth: Afalau crwn bach i ganolig eu maint. Croen melyn / gwyrdd wedi'i orchuddio'n bennaf mewn stribedi coch tywyll - bron â bod yn borffor. Ychydig iawn o groen garw, browngoch, rhywfaint o amgylch y coesyn. Yn aeddfedu ganol mis Hydref.

Defnydd: Mae Frederick yn enwog am fod â blas siarp heb unrhyw egrwch - yn ddelfrydol ar gyfer ei gyfuno â ffrwythau llai asidig. Persawr o ansawdd a dwysedd uchel. Gwyddys, hefyd, ei fod yn gwneud jeli afal ardderchog. DP 1.052, asid 1%, tannin 0.09%.

Gwybodaeth o National Fruit Collection.

Frongoch James Nicholson (A1791)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon yn tyfu ar dir ger Fferm Frongoch, Aberystwyth, sydd i'w gweld yn hen berllan gydag amrywiaethau eraill o afalau, ac y credir mai amrywiaethau o afalau seidr neu goginio yw'r mwyafrif ohonynt. Tynnwyd sylw Danny Thorogood yn Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Prifysgol Aberystwyth at y goeden gan Paul Evans, oedd yn arfer byw ar Fferm Frongoch ac yn cofio'r coed yno o'i blentyndod. Daw'r enw o'r lleoliad ac enw myfyriwr gwyddor chwaraeon Aberystwyth a fu farw'n drychinebus yn ystod ei flwyddyn olaf. Mae darn o'r goeden wedi'i thrawsblannu a phlannwyd coeden newydd a luosogwyd ym mhrif gampws y brifysgol er cof am James.

Ffrwyth: Mae'r afalau'n fach ac yn grwn gan fwyaf, er bod rhai yn hirgron. Gwyrdd gyda strimyn o gochder. Ychydig iawn o groen garw browngoch - rhyw gymaint yng ngwaelod y coesyn.

Defnydd: ychydig yn felys gyda thaninau - nodweddion seidr.



Frongoch Pawl (A1792)

Fel Frongoch James Nicholson (tudalen flaenorol), Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu ar dir ger Fferm Frongoch, Aberystwyth, sydd i'w gweld yn hen berllan. Mae'r amrywiaeth wedi'i henwi ar ôl Paul Evans a fu'n arfer byw ar Fferm Frongoch ac a awgrymodd gynnal profion DNA ar y coed yno, o fod wedi'u cofio o'i blentyndod.

Ffrwyth: Ffrwythau crwn eithaf bychan. Mae'r croen yn wyrdd gyda chochder pinc a lentiselau brown amlwg. Mae croen garw, browngoch yn dod allan yn strimynnau o waelod y llygad a'r coesyn.

Defnydd: Mae'r cig yn ffibrog ac mae iddo flas chwerw – posibilrwydd o nodweddion seidr.



Gabalva

Roedd yn hysbys bod yr hen amrywiaeth hon yn tyfu'n dda yn ardal Caerdydd tan tua 1920, mae hi bellach yn brin iawn.

Ffrwyth: Afalau canolig i fawr eu maint a gwastad-grwn i grwn eu siâp gyda chroen gwyrdd a stribedi o gochder. Rhyw gymaint o groen garw, browngoch o amgylch y coesyn byr. Nifer o lentiselau brown neu wyrdd, rhai yn fwy na rhai eraill.

Defnydd: Afalau coginio

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Savidge (Marcher Apple Network) i ailgynhyrchu'r lluniau.

Gelli Aur

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ym mharc gwledig a phlasty Gelli Aur, Sir Gaerfyrddin. Fe'i plannwyd fel rhan o ardd coed yn y 1860au.

Ffrwyth: Afalau melyn golau, mawr, gyda rhai strimynnau coch byr. Lentiselau brown tywyll amlwg ac ychydig iawn o groen garw, browngoch, rhai o amgylch y llygad. Gwaelod dwfn i'r coesyn byr. Gwaelod crychlyd i'r llygad. Afal tymor hwyr.

Defnydd: Cogydd

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Savidge (Marcher Apple Network) i ailgynhyrchu'r lluniau.

Jacob’s Snout (A1756)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu ar dir mewn pentref bychan yn Nyffryn Anghidi, Sir Fynwy. Prynwyd y tir gan y teulu Jacob yng nghanol y 1960au, ac amcangyfrifir bod y goeden tua 30 oed yr adeg honno. Credir bod y tir yn berllan ar un adeg, ac roedd gan y bwthyn cyfagos felin seidr. Rhoes ffermwr wedi ymddeol wybod i'r tirfeddiannwr y cyfeirid at yr amrywiaeth hon yn lleol fel "Trwyn y Ddafad" oherwydd ei siâp hir.

Blodyn: Petalau gwyn gydag ychydig o binc. Antherau brownoren. Canol mis Mai.

Ffrwyth: Fel arfer, mae'r afal yn cyrraedd 7-9cm o hyd a 6-7cm mewn diamedr. Mae'r ffrwyth yn hir ac yn mynd yn fain at y pen, ac weithiau gall y ffrwythau mwy fod ag ochrau onglog. Mae gan rai ffrwythau chwydd lle mae'r coesyn yn ymuno â'r ffrwyth. Pan fo'n aeddfed, mae’r ffrwyth yn felynwyrdd ar un ochr ac yn oren wedi'i fritho â strimynnau coch ar y llall. Fel arfer mae’r ffrwythau’n syrthio’n ystod pythefnos cyntaf mis Medi.

Defnydd: Mae'r blas yn un chwerwfelys a sych iawn, ac mae'r croen yn eithaf caled, felly mae'r amrywiaeth hon yn fwyaf addas ar gyfer seidr.




Lluniau wedi’u rhoi gan berchennog y goeden.

Jac y Do (A1785)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon yn tyfu mewn hen berllan ychydig y tu allan i furiau Castell Conwy ac mae'n rhoi cnwd egnïol. Mae'r term "Jac y Do" yn un a ddefnyddir yn draddodiadol gan bobl leol Conwy i gyfeirio at unrhyw un a aned o fewn waliau'r dref. Mae'r adar yn clwydo mewn niferoedd mawr o amgylch y dref, y waliau a'r berllan.

Ffrwyth: Mae'r afalau'n eithaf crwn gyda chroen melyn / gwyrdd golau a rhywfaint o gochder pinc. Mae'r coesau'n fyr, a dim ond o amgylch gwaelod y coesyn y mae'r croen garw, browngoch. Maent yn syrthio ddiwedd mis Medi.

Defnydd: Chwerwfelys gyda thaninau - Mae Grŵp Perllannau Conwy wedi defnyddio'r amrywiaeth hon i wneud seidr.

Jed’s Greenstyles (A1769)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu mewn rhandir yn Llanbister, Powys. Adwaenir y rhandir yn "Greenstyles" gan berchennog y goeden, yr oedd ei dad Jed yn gofalu am y rhandir a'r goeden.

Ffrwyth: Afalau canolig eu maint gyda chroen gwyrdd golau / melyn a strimynnau o gochder ar yr ochr sy’n cael yr haul. Ychydig iawn o groen garw, browngoch, rhyw gymaint o amgylch y coesyn a’r llygad. Coesau byrion.

Defnydd: Mae blas siarp i’r ffrwythau ac maent wedi’u defnyddio gan y perchennog i wneud seidr ac i goginio.



Jojo’s Delight (A684)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon yn tyfu ar Ynys Enlli yn 2004, gan Joseff "Jojo" Sturrock, 6 oed (mab y meithrinwr, Ian Sturrock). Roedd y goeden wreiddiol yn hen ac wedi torri, ac yn tyfu o fonyn yng ngardd arsyllfa adar yr ynys. Daethpwyd o hyd i’r goeden pan gliriwyd mieri gan staff yr arsyllfa, a sylwodd Jojo – gan ei fod yn eithaf bychan – ar y ffrwyth ger lefel y ddaear. Credir mai'r goeden hon oedd yn peillio'r Afal Enlli cyfagos (tudalen 19).

Ffrwyth: Afalau bychan, crwn-wastad gyda chroen gwyrdd yn troi’n felynfrown wrth i'r ffrwythau aeddfedu. Mae’r croen yn ddiflas ac yn lled-arw a browngoch. Ymddengys bod yr amrywiaeth hon yn gwrthsefyll afiechyd, fel yr Afal Enlli. Mae ffrwythau'n aeddfedu ganol y tymor.

Defnydd: Mae blas tannin yn amlwg yn gynnar yn eu datblygiad ond gallant ddatblygu melyster dymunol yn ddiweddarach tra’u bod yn dal i fod ar y goeden. Ychydig o flas meddyginiaethol.

Y wybodaeth a’r llun wedi’u rhoi gan Ian Sturrock.

Kennedy's Late (A128)

Fe'i henwyd gan Dave Matthews ar ôl y ffermwr John Kennedy, a ddangosodd iddo'r goeden anhysbys ar Fferm Perthyre yn Rockfield, Trefynwy. Roedd afalau dal ar y goeden yn ystod eu hymweliad ym mis Ionawr 2006.

Blodyn: Blodyn gwyn yn bennaf gyda rhai strimynnau pinc. Antherau Melyn. Mewn blodau yn hwyr ym mis Ebrill / dechrau mis Mai.

Ffrwyth: Afalau gwyrdd conigol-grwn. Mae wyneb cwyr i'r croen gydag ychydig iawn o gochder, ac nid oes crach na chroen garw, browngoch. Gall y coesyn fod yn hynod fyr (llai na 30mm), yr hiraf yw 1cm. Mae ffrwythau'n aeddfedu'n hwyr, gan syrthio fel arfer ym mis Tachwedd, ond gallant aros ar y goeden hyd at fis Ionawr.

Defnydd: afal seidr ysgafn, siarp.

Kretchmers Surprise (A1776)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu ar fferm yn Llanfyllin, Powys, yn perthyn i'r teulu Kretchmer. Mae'r goeden yn rhoi cnwd trwm iawn ac mae'r ffrwythau'n boblogaidd gydag adar.

Blodyn: Blagur pinc, blodau gwyn. Hwyr Mai.

Ffrwyth: Afalau gwyrdd bychain i ganolig eu maint gyda chochder a strimynnau coch. Mae croen garw, browngoch i'w weld o amgylch gwaelod y coesyn a'r llygad. Mae'r ffrwythau'n aros ar y goeden ymhell i'r hydref.

Defnydd: blas siarp - gellid eu defnyddio fel afalau coginio neu mewn cyfuniad seidr.

Llun o'r blodyn wedi'i roi gan berchennog y goeden.

Landore

* Mae hon yn amrywiaeth a ddaw o'r Gororau ac nid yw'n gyfyngedig i Gymru. O'r herwydd, nid yw wedi'i chynnwys yn ein casgliad o afalau a gellyg. Gellir ei gweld yng nghasgliad *Marcher Apple Network*.

Mae'r amrywiaeth hon wedi bod yn hysbys yn Sir Fynwy a Swydd Henffordd ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o bosib yn gynharach. Gellir dod o hyd i goed aeddfed byth yn Nyffryn Gwy ac o amgylch y Mynyddoedd Du. Credir mai Landore yw un o'r grŵp o afalau a elwir yn *Underleaf* - gan gyfeirio at amrywiaethau â dail sy'n tyfu dan y ffrwyth. Mae coed ifanc yn tyfu'n egnïol ond maent yn araf i gyrraedd y cyfnod lle byddant yn bwrw ffrwyth - serch hynny, mae'r amrywiaeth yn dal i fod yn uchel ei pharch, gan ei bod yn rhoi cnwd da dan amodau tyfu cyffredinol wael.

Ffrwyth: Afalau canolig i fawr eu maint, crwn i hirgrwn eu siâp. Mae'r croen yn felynwyrdd ac fel cwyr. Weithiau ceir cochder euraidd ar yr ochr sy'n cael yr haul. Nifer o lentiselau brown amlwg. Rhyw gymaint o groen garw, llwydfrown golau o amgylch y coesyn a rhai darnau ar y bochau. Mae'r coesyn yn drwchus ac fel arfer yn hir. Gwaelod y llygad fymryn yn grychlyd. Bydd y ffrwythau'n aeddfedu ddiwedd mis Hydref a byddant yn parhau hyd at fis Chwefror.

Defnydd: Afalau bwyta a choginio

Gwybodaeth o "Welsh Marches Pomona" gan Michael Porter (Marcher Apple Network)

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Savidge (Marcher Apple Network) i ailgynhyrchu'r lluniau.

Machen

Wedi'i darganfod ym Machen, Caerffili, roedd yr hen amrywiaeth hon, ac iddi ddau bwrpas, yn boblogaidd iawn yn Ne Cymru. Mae bellach yn cael ei gwerthu'n fasnachol.

Ffrwyth: Afalau mawr gyda chroen gwyrdd golau wedi'i orchuddio yn bennaf gyda chochder llachar. Gwaelod coesyn dwfn a gwaelod crychiog i'r llygad. Coesyn brown golau, byr. Mae lentiselau'n amrywio o ran maint a lliw o fach a choch i fawr a brown tywyll.

Defnydd: Dau bwrpas canol y tymor – afalau coginio'n aeddfedu i fod yn afalau bwyta llawn sudd.

Gwybodaeth gan Ian Sturrock www.iansturrockandsons.co.uk

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Savidge (Marcher Apple Network) i ailgynhyrchu'r lluniau.

Marged Nicolas (A685)

Daeth yr amrywiaeth hon i'r amlwg o ganlyniad i arolwg o berllannau fferm o amgylch Llansadwrn a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru - mae yna goed Marged Nicholas sy'n fwy na 70 mlwydd oed yn tyfu yn Ninefwr. Ychydig a wyddys am hanes yr hen amrywiaeth hon o Gymru.

Ffrwyth: Afalau canolig i fawr, crwn, gwastad. Melyn gyda chochder oren ar yr ochr sy'n cael yr haul. Mae'r croen yn arw ac yn sych. Yn llwydfrown ac yn arw o'r coesyn a'r llygad a lentiselau brown, amlwg. Hwyr yn y tymor - aeddfedu ym mis Tachwedd, er y gallant aros ar y goeden hyd at fis Ionawr.

Defnydd: Pwrpas cyffredinol - gellir eu bwyta'n ffres ac maent hefyd yn gwneud seidr chwerwfelys.

Gwybodaeth o "Welsh Marches Pomona" gan Michael Porter (Marcher Apple Network)

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Savidge (Marcher Apple Network) i ailgynhyrchu'r lluniau

Pen Caled (A136)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon mewn perllan yn Llandudoch, y credir ei bod wedi'i phlannu gan fynachod Tiron yn abaty Llandudoch er mwyn gwneud seidr. Ysgrifennwyd yr enw ar gynllun y berllan y tynnwyd ei lun gan fam perchennog y berllan - hen enwau Cymreig sy'n awgrymu amrywiaethau o Gymru sy'n hysbys i bobl leol. Mae'r enw'n cyfeirio at ba mor galed yw'r ffrwythau. Trawsblannwyd darn oddi ar y goeden a chaiff Pen Caled bellach ei dyfu a'i werthu'n fasnachol.

Blodyn: petalau gwyn a phinc, dechrau blodeuo ganol mis Ebrill.

Ffrwyth: Afalau oblad gyda chroen gwyrdd a chochder. Croen garw, browngoch yng ngwaelod y coesyn a chrach o amgylch y llygad. Mae'r coesau'n fyr, 0.5-1cm. Mae'r ffrwythau'n syrthio ganol y tymor, fel arfer ym mis Hydref.

Defnydd: Afal seidr mwyn, chwerw siarp / melys a rhyw gymaint o bosibilrwydd ei ddefnyddio fel cyfuniad. DP 1.055, asid 0.4%, dim tannin.



Perthyre (A129)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon gyntaf ar Fferm Perthyre yn Rockfield, Sir Fynwy ddiwedd y 1920au. Mae'r coed yn tueddu i fod yn eithaf egnïol ac ymledol. Mae perygl iddynt fagu crachen a phydru.

Blodyn: Yn gyfan gwbl wyn, yn llawn blodau ail wythnos Mai.

Ffrwyth: Afalau gwyrdd crwn i gonigol eu siâp a chanolig eu maint. Wyneb cwyr ar y croen gydag ychydig yn unig o gochder pinc golau, a dim croen garw, browngoch. Yn aeddfedu'n hwyr ym mis Hydref.

Defnydd: Afal seidr melyn, chwerwfelys, cytbwys – gallai, o bosib, fod yn un amrywiaeth dda ond efallai na fyddai ganddi gymeriad. DP 1.049, asid 0.28%, tannin 0.18%.

Gwybodaeth o National Fruit Collection.

Piccadilly (A1758)

Coeden hen iawn mewn ardal yn Llanfleiddan, Bro Morgannwg, y gwyddys y bu yno berllannau ar un adeg.

Ffrwyth: Afalau canolig eu maint sy'n syrthio'n hwyr ym mis Medi i ganol mis Hydref dros gyfnod hir. Mae'r ffrwythau'n hir ac weithiau'n ddi-siâp ac maent yn felyn gyda rhywfaint o stribedi pinc / coch ar yr ochr sy'n cael yr haul. Mae'r ffrwythau'n feddal ac yn pydru'n gyflym.

Defnydd: Siarp iawn gyda rhai taninau. Fe'i defnyddir i wneud seidr gan Alex Simmens, Perllannau Llanfleiddan. Yn gweithio'n dda mewn cyfuniad ond yn rhy siarp ar ei ben ei hun. Eplesu'n lân i fod yn seidr 7.5%.

Lluniau wedi'u rhoi gan Alex Simmens.

Pig Aderyn (A130)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon mewn perllan yn Llandudoch, y credir ei bod wedi'i phlannu gan fynachod Tiron yn abaty Llandudoch er mwyn gwneud seidr. Ysgrifennwyd yr enw ar gynllun y berllan y tynnwyd ei lun gan fam perchennog y berllan - hen enwau Cymreig sy'n awgrymu amrywiaethau o Gymru sy'n hysbys i bobl leol. Trawsblannwyd darn oddi ar y goeden a chaiff Pig Aderyn bellach ei dyfu a'i werthu'n fasnachol.

Blodyn: Petalau gwyn ac antherau oren. Blodau llawn ail wythnos Mai.

Ffrwyth: Afalau mawr, ychydig yn oblad. Mae strimynnau o gochder yn gorchuddio'r rhan fwyaf o'r croen melyn. Ychydig iawn o groen garw, browngoch, rhyw gymaint o amgylch y coesyn. Mae'r coesyn yn fyr, yn llai na 1cm. Yn aeddfedu'n gynnar, fel arfer yn gollwng ym mis Medi.

Defnydd: Mae blas eithaf melys i'r ffrwyth ac mae ychydig yn siarp – afal seidr a choginio. Mae'r seidr yn siarp gyda phersawr o ddwysedd ac ansawdd dda, mae'n ddefnyddiol fel cymysgydd o safon uchel. DP 1.037, asid 0.9%, dim tannin.

Pig yr Wydd

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu mewn nifer o berllannau ar ffermydd yn ardal Dinefwr o Ddyfed. Mae'r coed yn rhoi cnwd egnïol, trwm. Cyfeiria enw'r amrywiaeth at gromliniau ac onglau ochrau'r afalau.

Ffrwyth: Afalau canolig i fawr sy'n amrywio o siâp crwn-gonigol i hirgul gonigol. Mae'r croen yn wyrdd gyda chochder oren a rhai strimynnau coch, byr. Mae gan oddeutu 25% o'r ffrwythau linell o flew yn rhedeg o'r coesyn i'r llygad. Mae lentiselau'n fach, yn wyrdd ac yn weddol amlwg. Mae'r coesyn yn grwm, neu gellir ei asio ac mae'n gigog. Tymor y ffrwythau yw mis Medi tan y Nadolig.

Defnydd: Mae'r cig yn gadarn, llawn sudd ac yn asidig o siarp. Caiff ei ddefnyddio fel afal coginio, a'i goginio i fwtrin trwchus.

Gwybodaeth o "Welsh Marches Pomona" gan Michael Porter (Marcher Apple Network)

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd John Savidge (Marcher Apple Network) i ailgynhyrchu'r lluniau.

Pren Glas (A1812)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon yn yr un berllan yn Llandudoch â Phen Caled a Phig Aderyn, y credir iddi gael ei phlannu gan y mynachod Tiron yn abaty Llandudoch er mwyn gwneud seidr. Ysgrifennwyd yr enw ar gynllun y berllan y tynnwyd ei lun gan fam perchennog presennol y berllan - hen enwau Cymreig yn awgrymu amrywiaethau o Gymru sy'n hysbys i bobl leol. Trawsblannwyd darn oddi ar y goeden a chaiff Pren Glas bellach ei dyfu a'i werthu'n fasnachol.

Ffrwyth: Afalau canolig i fawr. Mae'r croen yn felynwyrdd gyda strimynnau coch. Rhyw gymaint o groen garw, browngoch yng ngwaelod y coesyn dwfn. Mae'r coesyn yn drwchus ac yn fyr.

Defnydd: Afalau coginio

Llun wedi'i roi gan Paul Davies.

Rosie Maple (A1771)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu mewn clwstwr o goed yn yr un cae yn Wolvesnewton, Sir Fynwy â'r Carw Coch. Mae gan y tirfeddianwyr wybodaeth am y goeden hon ers sawl cenhedlaeth. Mae'r enw'n ymwneud â'r hen goeden fasarn wrth ymyl y goeden afalau, ac mae Rosie Maple hefyd yn ecolegydd ac yn rhywun sydd wrth ei bodd gyda seidr ac yn hysbys i'r tirfeddianwyr.

Ffrwyth: Afalau bach, crwn gwyrdd / melyn golau gyda chochder lle mae'r haul wedi cael atynt. Rhyw gymaint o groen garw, browngoch yn dod allan o waelod y coesyn mewn strimynnau, a rhywfaint mewn patrwm "cracio" ar y bochau. Mae'r ffrwythau'n gollwng yn eithaf cynnar, tua diwedd mis Awst / dechrau mis Medi.

Defnydd: Mae'r ffrwythau'n siarp iawn ac wedi'u defnyddio gan y tirfeddianwyr i wneud seidr.

Tanat Reviver (A1778)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon mewn gardd yn Nyffryn Tanat, Croesoswallt. Mae'r goeden yn eithriadol o hen, ac adeg ysgrifennu'r gwaith hwn (2018) credir ei bod rhwng 160 a190 oed. Mae'n hollol wag ond yn dal i sefyll a rhydd lawer o ffrwythau bob blwyddyn. Mae'r enw'n addas i leoliad a nodweddion y goeden, ac mae'r ddau air yn balindromau hefyd.

Blodyn: Petalau gwyn yn bennaf gyda rhai smotiau pinc. Antherau Oren. Canol Mai.

Ffrwyth: Mae'r ffrwythau'n ganolig eu maint, yn debyg i bêl tenis yn gyffredinol. Maent ychydig yn anwastad eu siâp, yn mynd yn donnau o amgylch y cylchedd ac yn mynd fymryn yn bigfain tuag at y gwaelod. Maent yn wyrdd golau, gyda chochder weithiau lle dônt i gysylltiad â'r haul. Wrth aeddfedu newidia'r lliw i fod yn fwy o felynwyrdd. Disgynna'r ffrwyth ddiwedd mis Medi, er nad yw'n cadw'n dda.

Defnydd: Pan fo'n aeddfed, mae'r afal yn felys ac yn dda i'w fwyta, ond hefyd mae'n afal da ar gyfer coginio, gwneud sudd a seidr.



Llun o'r blodyn wedi'i roi gan berchennog y goeden.

Trysor Talog (A1815)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu mewn gardd ffermdy ger perllan yn Nhalog, Caerfyrddin.

Ffrwyth: Mae'r afalau'n ganolig eu maint gyda chroen melyn, er ei fod wedi'i orchuddio'n bennaf â stribedi coch. Gellir gweld rhyw gochder pinc lle daw i gysylltiad â'r haul, a rhywfaint o groen garw, browngoch o amgylch y coesyn.

Defnydd: Mae blas dymunol, melys iawn i'r ffrwyth – afal bwyta ydyw, fwyaf tebyg.

Twyn y Sheriff (A134)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon gan Dave Matthews yn tyfu mewn perllan ar Fferm Twyn y Sheriff? yn y dreflan o'r un enw, ychydig i'r de o Raglan, Sir Fynwy. Roedd gan y ffermwr amrywiaethau seidr a pherai Cymreig eraill megis Frederick, Perthyre a Gellyg Tatws, ond nid oedd y goeden hon yn cyd-fynd ag unrhyw gofnod blaenorol. Roedd y goeden yn hen iawn ac yn marw, felly fe'i trawsblannwyd fel bod modd i'r amrywiaeth barhau, a bellach caiff ei dyfu a'i werthu'n fasnachol.

Blodyn: Petalau gwyn a phinc ac antherau melyn. Blodeuo'n llawn yn nhrydedd wythnos mis Mai.

Ffrwyth: Afalau gwyrdd, crwn gyda rhywfaint o liw pinc a dim croen garw, browngoch. Yn gollwng ganol y tymor, fis Hydref fel arfer.

Defnydd: Seidr chwerw siarp/ melys, mwyn, cytbwys gyda phersawr nodedig ac mae'n bosib iawn y gallai gael ei ddefnyddio fel cyfunydd. SG 1.042, asid 0.3%, dim tannin.

Welsh Druid

Cofnodwyd yr amrywiaeth hon gyntaf yn Swydd Gaerloyw, er bod y deunydd wedi'i gymryd o goeden yn Mountain ger Cas-gwent, sydd bellach yn farw. Yn 2018, cafodd Marcher apple network gynnal profion DNA ar eu Coed Derwydd Cymreig a chadarnhawyd yr amrywiaeth yn un o Gymru. Mae'n bosib iddi fod yn hysbys yn gyntaf yn y 1900au cynnar ac erbyn hyn caiff ei hystyried yn aruthrol o brin.

Ffrwyth: Afal crwn, canolig ei faint. Mae'r croen yn wyrdd llachar ac wyneb cwyr iddo, gydag ychydig iawn o gochder. Rhyw gymaint o groen garw, browngoch o amgylch y coesyn. Yn aeddfedu ganol y tymor. Fel arfer, mae'r goes ei hun tua 2cm o hyd.

Defnydd: Mae gwaith cnoi ar y cig ac mae ychydig yn asidig. Pwrpas cyffredinol iddo.

Gwybodaeth o "Native Apples of Gloucestershire" gan Charles Martell

Wyatt’s Endurance (A1775)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon mewn perllan yn Nhregaer, Trefynwy, a blannwyd gan y Parchedig Monatgu Wyatt a symudodd i'r tŷ yn y 1850au. Syrthiodd y goeden wreiddiol dros ddegawdau’n ôl ond mae wedi parhau i dyfu o'r canghennau a syrthiodd, felly mae bellach yn ymestyn dros ardal eang. Mae'r amrywiaeth yn hynod egnïol ac yn dwyn ffrwyth bob blwyddyn.

Ffrwyth: Afalau melynwyrdd crwn gyda rhyw liw pinc. Croen garw, browngoch yn strimynnau o amgylch gwaelod y goes - mae'r goes ei hun yn fyr. I’w deimlo’n feddal, gyda rhywfaint o felyster a siarprwydd.

Defnydd: Afal coginio da iawn, ond mae ganddo hefyd nodweddion seidr.

GELLYG TREFTADAETH CYMRU

Rhagair ar gyfer Gellyg Perai

Mae Pomona Cymru, sy'n rhestru afalau a gellyg o Gymru yn gyfrol werthfawr y bydd llawer yn ei chael yn ddefnyddiol. Mae'n gofnod pwysig o'r amrywiaethau a geir yn tyfu yno. Bydd y rhan fwyaf o'r gellyg a restrir wedi'u plannu i gynhyrchu perai, rhywbeth a wnaed yn anaml tan yn ddiweddar, ac eithrio yn siroedd Gororau de Cymru, yn enwedig Swydd Gaerloyw, Swydd Henffordd, Sir Fynwy a Swydd Gaerwrangon.

Nid yw gwerth cofnod o'r fath yn gymaint y canfuwyd hedyn ar hap sy'n digwydd tyfu yng Nghymru, ond bod yr amrywiaethau hyn, dros ganrifoedd o ddethol ac ymhinsoddi, wedi'u haddasu i amodau lleol i gynhyrchu ffurf wedi'i addasu i gyfuniadau o ffactorau penodol yr ardal leol, ac sydd â gwydnwch cynhenid i'r gwahanol blâu a chlefydau a geir yn yr ardal.

Am y rheswm hwn, mae hi mor hanfodol sicrhau y caiff coed eu hasesu'n ofalus, gan wirio nad eginblanhigion y'u dygir i mewn fel gwreiddgyffion o rywle arall ydynt. Gwnaed hyn trwy gofnodi hanes hysbys y goeden, gwirio ei chyflwr a pha mor debygol yw o gael clefyd ac, yn arbennig, wrth bennu ansawdd y perai y mae'r ffrwyth yn ei gynhyrchu. Mae'r cyhoeddiad hwn yn gam pwysig mewn prosiect parhaus a gwerth chweil.

Rhaid llongyfarch Jayne a'i thîm ar eu hymdrechion, a esgorodd ar y canlyniad hwn sydd mor arbennig

Jim Chapman

Curadur Casgliad Cenedlaethol y Gellyg Perai, Hartpury, Swydd Gaerloyw.

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon yn tyfu ar fferm yng Nghwmdu, Powys y gwyddys y bu yno berllannau ar un adeg.

Ffrwyth: Gellyg crwn-gonigol, canolig i fawr eu maint gyda chroen melyn wedi'i orchuddio â lentiselau brown. Mae rhyw gymaint o groen garw, browngoch yng ngwaelod y coesyn a'r llygad. Mae'r ffrwythau'n dechrau syrthio yn gynnar i ganol mis Medi.

Defnydd: Defnyddir y ffrwythau gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* i wneud Perai un amrywiaeth.

Berllanderi Green (P439)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn 2000 gan Dave Matthews mewn perllan ar Fferm Berllanderi, ychydig y tu allan i Raglan yn Sir Fynwy. Roedd y fferm yn eiddo i Ddug Beaufort ar un adeg a byddai wedi cyflenwi Castell Rhaglan, ac mae gan y berllan lawer o hen amrywiaethau eraill o afalau a gellyg. Defnyddiwyd y berllan gan Bulmers hefyd ar un adeg.

Blodyn: Petalau'n gyfan gwbl wyn gydag antherau piws tywyll. Yn blodeuo ganol mis Ebrill.

Ffrwyth: Yn grwn-gonigol eu siâp, mae'r gellyg yn ganolig eu maint ac mae ganddynt groen melyn wedi'i orchuddio â lentiselau brown. Croen garw, browngoch o amgylch y llygad a'r coesyn. Dim cochder. Coesyn hir.

Defnydd: Asid isel a thaninau canolig – fe'u defnyddir fel gellyg bwyta ac i wneud Perai.

Berllanderi Red (P020)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn 2000 gan Dave Matthews mewn perllan ar Fferm Berllanderi, ychydig y tu allan i Raglan yn Sir Fynwy. Roedd y fferm yn eiddo i Ddug Beaufort ar un adeg a byddai wedi cyflenwi Castell Rhaglan, ac mae gan y berllan lawer o hen amrywiaethau eraill o afalau a gellyg. Defnyddiwyd y berllan gan Bulmers hefyd ar un adeg.

Blodyn: Petalau'n gyfan gwbl wyn gydag antherau piws tywyll. Yn blodeuo ganol mis Ebrill.

Ffrwyth: Gellyg conigol, canolig i fawr eu siâp. Croen melynwyrdd y gellir ei orchuddio'n bennaf gyda chochder. Lentisilau bychain brown, a chroen garw, browngoch o amgylch y coesyn a'r llygad, gyda rhai darnau ar y bochau. Coesyn trwchus.

Defnydd: Gellyg perai cytbwys gyda phosibiliadau mewn cyfuniadau ac fel un amrywiaeth. Asid 0.3%, dim taninau.

Betty Prosser (P408/P409)

Cafodd yr hen amrywiaeth hon o Sir Fynwy ei hailddarganfod ar fferm yn Corse, Swydd Gaerloyw yn 1994 – bryd hynny, y deuddeg coeden yma oedd yr unig goed o'r amrywiaeth hon y gwyddys eu bod wedi goroesi, coed yr amcangyfrifir eu bod o leiaf 100 oed, ac wedi'u plannu mewn rhesi. Sylwodd Jim Chapman o Ganolfan Genedlaethol y Gellyg Perai, wrth iddo fynd trwy gofnodion Gorsaf Ymchwil Long Ashton o'r 1950au, bod cofnod o'r amrywiaeth ar fferm ger Trefynwy - ac yn wir daeth y teulu oedd yn berchen ar fferm Corse, lle cafodd ei ailddarganfod, i'r ardal o Drefynwy. Ers hynny, mae'r profion DNA a gynhaliwyd gan Gymdeithas Perai Seidr Cymru wedi cael hyd i fwy o'r amrywiaeth hon o amgylch Sir Fynwy, er bod yr amrywiaeth yn dal yn hynod brin. Nid yw'n hysbys pwy oedd "Betty Prosser".

Blodyn: Yn gyfan gwbl wyn, antherau piws tywyll

Ffrwythau: Gellyg cogyrnog gyda chroen melyn a strimynnau o gochder. Mae nifer o lentisilau brown, bach i'w gweld a rhywfaint o groen garw, browngoch o amgylch y coesyn a'r llygad a all ledaenu i'r bochau. Gellid bod rhywfaint o grach. Mae'r coesyn yn gadarn a chigog, hyd at 1.8cm o hyd, ac mae wedi'i ymuno â'r ffrwyth gan wefl gigog, neu gall uno gyda'r ffrwyth. Mae'n dechrau syrthio yn gynnar ym mis Medi.

Defnydd: Perai

Gwybodaeth o "Pears of Gloucestershire and Perai Pears of the Three Counties" gan Charles Martell, a chan Jim Chapman, Canolfan Genedlaethol y Gellyg Perai
https://www.nationalperrypearcentre.org.uk/

Llun y blodyn wedi'i roi gan berchennog y goeden. Llun y ffrwyth wedi'i roi gan Jim Chapman (Canolfan Genedlaethol y Gellyg Perai). Yn disgwyl am fwy o luniau JC.

Brycheiniog Beauty (P458)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar fferm yn Scethrog, ger Aberhonddu. Mae mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au yn dangos perllannau ar y fferm, y mae'r goeden hon yn rhan weddilliol ohonynt.

Ffrwyth: Ffrwythau crwn-gonigal, bychain i ganolig eu maint. Mae'r croen yn wyrdd / melyn golau gyda lentiselau gwyrdd. Dipyn go lew o groen garw, browngoch o amgylch gwaelod y llygad, rhywfaint yn waelod y coesyn ac ar y bochau. Yn syrthio rhwng cynnar a chanol mis Medi.

Defnydd: Cânt eu defnyddio gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* i wneud Perai - mewn cyfuniad.

Burgundy (P023)

Wedi'i henwi gan Dave Matthews, Canfuwyd yr amrywiaeth hon mewn nifer o leoliadau o amgylch Sir Fynwy, gan gynnwys ffermydd ym Mrynbuga a Llanddingad. Cyfeirir ati hefyd fel "Monmouthshire Burgundy". Mae proffilio DNA wedi dangos bod hon yr un fath â Gellygen Goch Blakeney ond mae'n fwy purffurf. Mae ganddi goes hwy ac mae'n blasu'n wahanol. Edrych ar 12 marcwr yn unig y mae profion DNA, felly mae'n debyg mai math ar Ellygen Goch Blakeney yw hwn yn hytrach nag un sydd union yr un peth.

Blodyn: Petalau'n gyfan gwbl wyn, antherau piws tywyll. Yn blodeuo ganol mis Ebrill.

Ffrwyth: Gellyg crwn-gonigol 5.5cm o uchder ar gyfartaledd, gyda chroen gwyrdd y gallai rhyw gochder orchuddio'r rhan fwyaf o'r ochr sy'n cael yr haul. Llawer o groen garw, browngoch yn ymledu i'r foch a lentiselau bychain, gwyrdd. Coesau cigog, hir (3cm).

Defnydd: Asid a thannin canolig – gellygen perai.

Cefnydd Hyfryd (P405/412)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon yn tyfu ar ffermydd yn Llanddewi Rhydderch a Llanddingan - roedd y ddwy goeden yn hen iawn, a'r gred oedd mai gweddillion hen berllannau a welwyd ar fapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au oeddynt. Daw'r enw o Fferm Cefnydd yn Llandewi Rhydderch.

Ffrwythau: Mae'r gellyg yn fach i ganolig eu maint a gall eu siâp amrywio, ond maent yn gonigol gan fwyaf gan dueddu i fod yn burffurf. Mae'r croen yn wyrdd gyda nifer o lentiselau brown. Ceir croen garw, browngoch o amgylch y llygad a'r coesyn, a gellir bod smotiau ar y bochau. Mae'r coesyn yn hir ac yn breniog. Mae'n syrthio'n hwyr ym mis Awst i ddechrau mis Medi.

Defnydd: Tybir mai gellygen perai ydyw.

Chapman’s Orange (P024)

Fe’i henwyd gan Dave Matthews a ganfu’r goeden wreiddiol yn Chapman's Farm ar Wastadeddau Gwent. Mae arlliw o oren i groen a blas y ffrwyth.

Blodyn: Petalau’n gyfan gwbl wyn gydag antherau piws tywyll. Yn blodeuo ganol mis Ebrill.

Ffrwyth: Gellyg purffurf gyda chroen melyn y gellir fod wedi’i orchuddio bron yn llwyr gan lliw oren gwasgarog. Croen garw, browngoch o amgylch gwaelod y coesyn a’r llygad ac yn lledaenu i’r ysgwyddau. Mae'r coesyn yn drwchus, brown a chigog.

Defnydd: Mae’n gwneud perai orenaidd sydd ychydig yn denau a mymryn yn chwerw, yn addas ar gyfer ei gyfuno. Asid 0.3%.

Clystyrau Cil Hal (P425)

Coeden gellyg perai fawr mewn hen berllan ger eglwys yn Llanfocha. Gallai'r berllan - a welir ar fapiau Arolwg Ordnans o ddechrau'r 1880 – fod wedi'i phlannu gan breswylwyr y ficerdy. Cyfeiria enw'r amrywiaeth at y clystyrau ar ddiwedd y brigyn y mae'r gellyg yn tyfu ynddynt, ac enw'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar y fferm.

Ffrwyth: Mae'r gellyg yn fach ac yn grwn iawn. Mae'r croen yn felynwyrdd gyda lentiselau brown. O amgylch gwaelod y coesyn mae'r croen garw, browngoch gan fwyaf ond mae rhai smotiau ar y bochau. Mae'r coesyn yn hir, syth a phreniog. Tyfa gellyg mewn clystyrau o dair neu fwy.

Defnydd: Perai



Coldbrook (P043)

Canfuwyd yr ellygen hon mewn hen berllan ar fferm sy'n eiddo i Ystâd Coldbrook, y Fenni. Mae'r fferm, y berllan a'r coed unigol i'w gweld ar fapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au.

Ffrwythau: Mae'r gellyg yn fach ac yn grwn-gonigol, gyda chroen melyn golau. Mae'r lentiselau'n fach ac yn niferus, a gallant fod yn frown neu'n wyrdd. Rhyw gymaint o groen garw, browngoch o'r coesyn a'r llygad. Maent yn syrthio ganol mis Medi.

Defnydd: Fe'u defnyddir gan Sally Perks o *Raglan Cider Mill* i wneud perai.

Crystell (P072)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon mewn hen berllan yn Llantrisant, Brynbuga, sydd ar fapiau o 1780 a rhoddwyd gorchymyn cadwraeth arni yn y 1940au. Defnyddir yr amrywiaethau yn y berllan gan Jessica Deathe o Three Saints i wneud Perai a seidr. Mae'r goeden yn fawr, yn unionsyth ac mae'r canghennau wedi tyfu mewn siâp "petryal". Cyfeiria'r enw at y Perai sy'n "glir fel grisial" y mae'r amrywiaeth hon yn ei gynhyrchu.

Blodyn: Canol i ddiwedd mis Mawrth.

Ffrwyth: Mae'r gellyg yn ganolig i fawr eu maint ac yn hirgrwn eu siâp. Mae'r croen yn wyrdd gyda lentiselau brown, amlwg. Gall croen garw, browngoch orchuddio oddeutu 50% o'r croen. Mae'r coesyn yn eithaf byr ac yn drwchus.

Defnydd: Mae'n gwneud perai golau a chlir iawn ("clir fel grisial"). Lefel uchel o asid ac egrwch ond corff da iddi, ac mae'n ddelfrydol fel cymysgydd neu o bosib fel un amrywiaeth wrth iddi heneiddio. DP 1.055, asid 0.7%, tannin 0.11%.

Cwm Green (P411)

Yn gyfystyr â: "Tumper Pear"

Daethpwyd o hyd i goeden wreiddiol yr amrywiaeth hon gan Dave Matthews a fo a'i henwodd yn y Cwm, Welsh Newton yn 2004. Roedd amrywiaethau eraill o afalau seidr a gellyg perai ym mherllan y Cwm hefyd yn cynnwys gellyg Cynnar Helen a gellyg Coch Longdon, ac mae'n ymddangos ar fapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au.

Ffrwyth: Ffrwyth sy'n amlwg yn burffurf, canolig ei faint. Mae'r croen yn wyrdd heb unrhyw gochder ac mae iddo lentiselau brown golau, amlwg. Croen garw, browngoch yng ngwaelod y llygad ac o amgylch ysgwyddau'r coesyn. Weithiau'n gwau ei ffordd tuag at y bochau. Coesyn brown, main, oddeutu 3cm o hyd.

Defnydd: asid canolig, tannin eithaf isel - perai gellyg.

Llun wedi'i roi gan Dave Matthews.

Cwrt Robert Pear (P054)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yng ngardd Cwrt Robert, ger Rhaglan. Mae mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au yn dangos perllannau yng Nghwrt Robert, y credir bod y goeden hon yn rhan weddilliol ohonynt.

Ffrwyth: Hirgul, canolig eu maint gyda chroen gwyrdd a lentiselau gwyrdd tywyllach. Croen garw, browngoch o amgylch y coesyn a gall orchuddio un ochr i'r ffrwythau. Coesyn gwyrdd trwchus.

Defnydd: Mae teimlad graeanog i'r cig, ond nid yw'r blas yn annymunol, gyda rhywfaint o felyster. Wedi'i ddefnyddio gan Sally Perks o *Raglan Cider Mill* i wneud Perai.

Cyfrinach Scethrog (P461)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar fferm yn Scethrog, ger Aberhonddu. Dengys mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au berllannau ar y fferm, y mae'r goeden hon yn rhan weddilliol ohonynt.

Ffrwyth: Mae'r gellyg yn amrywio o ran siâp er eu bod yn gonigol gan fwyaf, gyda rhai yn tueddu i fod yn burffurf. Croen melynwyrdd gyda lentiselau gwyrdd. Rhai smotiau o groen caled, browngoch o amgylch y coesyn a chroen garw corciog yn ymledu o'r llygad. Canolig eu hyd, coesyn brown, trwchus. Yn syrthio o ganol mis Medi.

Defnydd: Fe'u defnyddir gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* i wneud Perai - mewn cyfuniad.



Dai’s Delight (P460)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar fferm yn Scethrog, ger Aberhonddu. Dengys mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au berllannau ar y fferm, y mae'r goeden hon yn rhan weddilliol ohonynt. Dai yw enw'r ffermwr sy'n berchen ar y tir y mae'r goeden yn tyfu arno.

Ffrwyth: Ffrwyth crwn-gonigol, eithaf bach. Mae'r croen yn felyn gyda chochder pinc a nifer o lentiselau bychain, brown. Croen garw, browngoch o amgylch y llygad yn unig. Mae’r coesau’n hir iawn ac yn aml yn grwm. Mae'n syrthio o ganol mis Medi.

Defnydd: Fe’i defnyddir gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* i wneud Perai - mewn cyfuniad.

Dingat (P058)

Canfuwyd yr amrywiaeth hwn ar Fishpool Farm yn Llanddingad - hen goeden fawr union gerllaw'r ffermdy. Mae gan y fferm wasg seidr draddodiadol wrth ymyl y llety byw ac mae seidr a pherai wedi'u gwneud yno ers cyfnod maith. Mae coed wedi'u marcio ar fap degwm yr 1840au a mapiau Arolwg Ordnans dilynol.

Ffrwyth: Ffrwyth conigol, bychan iawn, yn wyrdd gan bennaf gyda chroen garw, browngoch o amgylch y coesyn a rhyw gymaint ar y bochau. Un ffrwyth ar ei ben ei hun ydyw yn aml er ei bod hefyd yn ymddangos fesul grŵp o hyd at dair. Mae'r coesau'n eithaf hir a gallant fod yn grwm. Mae'n syrthio yn ystod mis Hydref.

Defnydd: Wedi'i ddefnyddio i wneud Perai gan berchennog y goeden.

Edith (P078/P444)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon fel hen, goeden fawr mewn hen berllan yn Llantrisant, Brynbuga, ac fe'i henwyd ar ôl diweddar wraig perchennog y goeden. Fe'i canfuwyd hefyd mewn perllan yn y Trallwng.

Ffrwyth: Ffrwythau conigol o faint canolig. Mae'r croen yn wyrdd gyda nifer o lentiselau bychain, brown. Mae'r coesau'n hir, yn frown gan fwyaf ond yn wyrdd yn agosach at y ffrwyth, a gallant fod ychydig yn grwm. Eithaf tipyn o groen garw, browngoch o amgylch y llygad, rhyw gymaint o amgylch y goes ac ar y bochau. Yn syrthio'n gynnar ym mis Medi.

Defnydd: Fe''i defnyddir gan Jessica Deathe o Three Saints i wneud Perai - perai cytbwys gyda phersawr ffrwythus a blodeuog. Da fel un amrywiaeth ond hefyd ar gyfer ei chymysgu. DP 1.051, asid 0.3%, tannin 0.05%.

Felin Fach (P064)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar Little Mill Farm yng Nghastell-meirch, Sir Fynwy. Prynodd perchnogion presennol Little Mill y fferm a'r goeden ym 1989. Dengys mapiau Arolwg Ordnans o 100 mlynedd cyn y pryniant hwn berllannau a choed unigol o amgylch y fferm, oedd ynghlwm wrth felin ŷd. Mae gan y perchennog lun y fferm a dynnwyd o'r awyr tua 1963 yn dangos y goeden gellyg perai wedi tyfu i'w llawn dwf. Mae'n debyg bod y prif foncyff wedi'i dynnu allan, gan adael chwe changen fawr yn tyfu o'r sylfaen tua phedair troedfedd o'r ddaear. Ychydig iawn o ffrwythau a gafwyd ar y goeden wreiddiol yn y blynyddoedd diwethaf, felly fe grëwyd y goeden hon i warchod yr amrywiaeth.

Ffrwyth: Gellyg gwyrdd bychain, conigol, eithaf tywyll gyda llawer o lentiselau brown, bach a rhywfaint o grach. Gall bod rhyw gymaint o gochder pinc ar yr ochr sy'n cael yr haul. Mae'r coesyn yn drwchus a brown. Fel arfer, mae'r ffrwythau'n syrthio'n hwyr ym mis Awst.

Defnydd: Mae teimlad sych i'r cig gyda thannin cymedrol - nodweddion gellygen perai.

Fferm Ty Coch (P052)

Cafwyd yr amrywiaeth hon ar Red House Farm yn yr Hendre, Sir Fynwy. Mae'n hysbys y bu nifer o berllannau ar y fferm - a ddangosir ar fapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au - a chredir bod y goeden hon yn rhan weddilliol ohonynt.

Ffrwyth: Gellyg hirgrwn, canolig eu maint gyda chroen melynwyrdd wedi'i orchuddio â nifer o lentiselau brown. Ceir croen garw, browngoch o amgylch y llygad, ac weithiau mewn rhannau neu strimynnau ar y bochau. Gall bod ychydig o gochder pinc ar yr ochr sy'n cael yr haul, a rhywfaint o grach. Mae'r coesau'n eithaf trwchus ac yn frown golau, gan fynd yn wyrddach tuag at y rhan sydd agosaf i'r goeden.

Defnydd: Perai llawn a chytbwys gyda nodweddion ffrwythus a charamel, addas fel un amrywiaeth. DP 1.070, asid 0.6%, tannin 0.06%

Ffinffrwdd John (P436)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu ar lan nant sy'n llifo trwy gaeau yn Fferm Glyn Derw yn Llanfaredd, Powys.

Ffrwyth: Ffrwyth canolig ei faint o siâp purffurf. Mae'r croen yn felynwyrdd, gyda rhai o'r ffrwythau wedi'u gorchuddio bron yn llwyr â chochder pinc. Mae'r croen garw, browngoch o amgylch y llygad yn bennaf, gyda rhywfaint o amgylch y coesyn a'r bochau. Mae'r gellyg yn dal yn eithaf caled gan aros ar y goeden hyd nes bydd y gwynt yn eu chwythu i lawr.

Defnydd: cig meddal a blas dymunol - gellyg bwyta, fwy na thebyg.

Llun wedi'i roi gan berchennog y goeden.

Fig Tree (P074)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon mewn hen berllan yn Llantrisant, Brynbuga, sydd ar fapiau o 1780 a rhoddwyd gorchymyn cadwraeth yn y 1940au. Defnyddir yr amrywiaethau yn y berllan gan Jessica Deathe o *Three Saints* i wneud perai a seidr. Mae'r enw'n cyfeirio at debygrwydd y gellyg i ffigys.

Ffrwyth: Mae'r gellyg yn grwn-gonigol eu siâp, yn ymdebygu i ffigys. Mae'r croen yn felynwyrdd gyda llawer o groen garw, browngoch o amgylch y llygad a rhyw gymaint yn lledaenu i fyny i'r bochau. Mae'r coesyn yn drwchus iawn ac yn ganolig ei hyd.

Defnydd: Mae'r cig yn gyfoethog ac yn llawn sudd, ac yn isel mewn siwgr. Caiff ei ddefnyddio gan Jessica Deathe o *Three Saints* i wneud perai. Mae persawr dymunol o flodau i'r perai ond mae'n denau ran corff – cyfuno yw'r gorau iddi. DP 1.042, asid 0.4%, tannin 0.04%..

Gellygen Godidog (P455)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn Fferm Tŷ Canol yn Llangors, ger Aberhonddu, y gwyddys y bu yno berllannau. Defnyddir y coed ar y fferm hon gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* i wneud Perai.

Ffrwyth: Ffrwythau conigol, canolig eu maint. Mae'r croen yn wyrdd gyda chochder ysgafn iawn. Nifer o lentiselau gwyrdd tywyll (wedi troi'n goch tywyll oherwydd y cochder). Mae'r coesau'n eithaf hir a gwyrdd. Ychydig iawn o groen garw - weithiau o amgylch y llygad.

Defnydd: Fe'i defnyddir gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* i wneud Perai - mewn cyfuniad.

Gwehelog (P031)

Wedi'i enwi gan Dave Matthews ar ôl iddo ddarganfod yr amrywiaeth hon mewn perllan ar fferm yng Ngwehelog, ger Rhaglan, Sir Fynwy, yn 2002. Roedd y goeden yn hen, yn fawr ac yn lledaenu.

Blodyn: Petalau'n gyfan gwbl wyn, antherau piws tywyll. Yn blodeuo am y tro cyntaf yn hwyr ym mis Mawrth / dechrau mis Ebrill.

Ffrwyth: Mae gellyg yn onglog a chogyrnog, bron yn grwn eu siâp. Mae ganddynt groen melyn a all fod â chochder oren gwasgaredig ar yr ochr sy'n cael yr haul. Mae'r lentiselau'n niferus, yn fach ac yn wyrdd. Rhyw gymaint o groen garw, browngoch yma ac acw. Mae hyd y goes yn amrywio o 0.9cm i 2.8cm - gall y goes fod yn drwchus ac yn gnyciog.

Defnydd: Perai blas isel, addas ar gyfer eu cyfuno'n unig. Asid 0.3%.

Gwehelog Red (P022)

Fe'i henwyd gan Dave Matthews ar ôl iddo ddarganfod yr amrywiaeth hon mewn perllan ar fferm yng Ngwehelog, ger Rhaglan, Sir Fynwy, yn 2002.

Blodyn: Petalau bron yn gyfan gwbl wyn gyda rhywfaint o binc. Antherau piws tywyll. Yn blodeuo am y tro cyntaf yn gynnar ym mis Ebrill.

Ffrwyth: Gellyg crwn-gonigol. Gall croen gwyrdd gael ei orchuddio'n llwyr gan groen garw, browngoch neu gochder. Coesau preniog hir. Maent yn syrthio'n gynnar ym mis Medi.

Defnydd: persawr fel gwin ac yn nodedig gyda chydbwysedd da a phosibilrwydd o fod yn amrywiaeth Perai unigol.

Gwern Ddu (P066/P075)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon fel dwy goeden uchel a main mewn hen berllan yn Llantrisant, Bryn Buga, sydd ar fapiau o 1780 ac y rhoddwyd gorchymyn cadwraeth arni yn y 1940au. Gwern Ddu yw enw'r ardal y mae'r coed yn tyfu ynddi.

Ffrwyth: Mae'r ffrwythau'n gonigol, ac yn felynwyrdd eu lliw gyda chochder pinc a lentiselau bychain gwyrdd. Croen garw, browngoch o amgylch y llygad yn unig. Coesau hir iawn. Maent yn syrthio ddiwedd mis Awst / dechrau mis Medi.

Defnydd: Siarp gyda thaninau - nodweddion gellyg perai, ac mewn perllan gyda gellyg perai eraill, er nad yw wedi'i ddefnyddio eto i wneud Perai gan ei bod yn disgyn yn gynharach na'r amrywiaethau eraill yn y berllan.

Hannah Rose (P431)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar Fferm Cwm Aaron yng Nghroesyceiliog, sydd ag ynddi weddillion hen berllan – coed afalau yn bennaf, gyda thair coeden ellyg. Credir bod y rhain wedi'u plannu tua 1880, ac mae'r goeden benodol hon yn dal iawn ac yn lledaenu. Credir bod y perllannau wedi'u defnyddio i fwydo'r gweithwyr fferm, ac er nad yw'n hysbys a gâi'r ffrwythau eu defnyddio ar gyfer seidr neu berai, mae'n sicr yn bosibilrwydd, gan y byddai llawer o weithwyr fferm wedi cael eu talu mewn seidr a pherai yn nhymor y cynhaeaf gwair. Mae'r perchennog wedi enwi'r amrywiaeth hon ar ôl ei fam a'i fam-gu. Enwau canol ei ferch ydynt, hefyd.

Ffrwyth: Ffrwyth purffurf canolig ei faint gyda chroen gwyrdd tywyll a melyn. Coesau brown hir iawn. Ychydig iawn o groen garw, browngoch. Ychydig o smotiau o amgylch y coesyn a'r llygad.

Defnydd: Mae'r gellyg yn parhau i fod yn galed iawn, ac mae blas egr siarp iddynt - nodweddion gellyg Perai a gellyg coginio. Mae'r perchennog wedi'u defnyddio i wneud siytni.

Hugh’s Hyfrydwch (P462)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar fferm yn Scethrog, ger Aberhonddu. Mae mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au yn dangos perllannau ar y fferm, y mae'r goeden hon yn rhan weddilliol ohonynt.

Ffrwyth: Gellyg melyn o faint canolig, crwn-conigol eu siâp. Mae’r lentiselau’n fach iawn, yn wyrdd ac nid ydynt yn amlwg. Ychydig o smotiau o groen garw, browngoch o amgylch y llygad ac ar y bochau. Mae'r coesyn yn hir ac yn breniog, yn frown golau gan fwyaf, gydag ychydig o felynwyrdd yn agos at y ffrwyth.

Defnydd: Caiff ei defnyddio gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* i wneud Perai - mewn cyfuniad.



Kingcoed Delight (P415) & Kingcoed Surprise (P416)

Canfuwyd y ddwy amrywiaeth hyn yn yr Hen Felin Seidr yng Nghyncoed, ger Rhaglan. Fel y mae enw'r tŷ yn ei awgrymu, mae hen felin seidr gerrig ar y safle, ac roedd perllannau yno hefyd ar un adeg - perllannau y credir mai'r coed hyn yw eu gweddillion.

(Disgrifiad a lluniau ar gyfer Kingcoed Delight - dim ffrwyth ar gael ar gyfer Kingcoed Surprise, hydref 2018)

Ffrwyth: Gellyg purffurf canolig eu maint. Mae'r croen yn felynwyrdd gyda chochder pinc ar yr ochr sy'n cael yr haul. Mae'r croen garw, browngoch yn bennaf o amgylch gwaelod y goes a'r llygad, gyda rhywfaint yn lledaenu i'r bochau. Nifer o lentiselau bychan gwyrdd, yn troi'n goch lle mae'r croen yn goch. Mae'r goes yn hir ac yn frown.

Defnydd: Gellyg perai ydynt yn fwyaf tebyg gan iddynt gael eu canfod ar safle ac arni hen felin seidr.

Lemon Tree (P065)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon mewn hen berllan yn Llantrisant, Brynbuga, sydd ar fapiau o 1780 ac y rhoddwyd gorchymyn cadwraeth arni yn y 1940au. Defnyddir yr amrywiaethau sydd yn y berllan gan Jessica Deathe o *Three Saints* i wneud perai a seidr. Cyfeiria enw'r amrywiaeth at siâp y gellyg, sy'n debyg i lemon.

Blodyn: Blodau gwyn ym mis Mawrth.

Ffrwyth: Ffrwythau hirgrwn melynwyrdd, sy'n debyg i lemon o ran siâp. Gallant fod â chochder pinc golau ar yr ochr sy'n cael yr haul. Croen garw, browngoch golau ac ychydig o grach o amgylch y llygad, gyda rhai smotiau tywyll o groen garw, tywyllach o amgylch y coesyn a'r bochau. Mae'r ffrwythau naill ai'n fach ac yn niferus, neu'n fawr ac yn brin. Mae'r ffrwythau'n disgyn yn hwyr ym mis Medi i ddechrau mis Hydref.

Defnydd: Fe'u defnyddir gan Jessica Deathe o *Three Saints* i wneud perai a seidr - mae blas fymryn yn sitrig ar y perai ac fe'u defnyddir yn aml mewn cyfuniad.



Little Cross Huffcap (P027)

Fe'i henwyd gan Dave Matthews a ganfu'r amrywiaeth hon yn Little Cross Farm ger Casnewydd.

Blodyn: Petalau gwyn yn bennaf gyda smotiau o binc, briger eithaf coch i goch tywyll. Yn blodeuo ganol mis Ebrill.

Ffrwyth: Mae'r gellyg yn gonigol, weithiau'n tueddu i fod yn burffurf, a hyd at 3.5cm o uchder. Mae'r croen yn wyrdd, ond gall ymddangos yn goch tywyll ar yr ochr sy'n cael yr haul. Croen garw, browngoch corciog o amgylch y llygad ac yn ymledu i'r bochau.

Defnydd: Lefel uchel o dannin ac asidedd– gellygen Perai.

Llanfocha (P062)

Coeden ellyg fawr mewn hen berllan ger eglwys yn Llanfocha. Gallai'r berllan - a welir ar fapiau Arolwg Ordnans o ddechrau'r 1880 – fod wedi'i phlannu gan ddeiliaid y ficerdy.

Ffrwyth: Ffrwythau bach, crwn iawn. Mae'r croen yn wyrdd gyda nifer o lentiselau brown. Coes hir, frown, tua'r un hyd ag uchder y ffrwythau. Croen garw, browngoch o amgylch y coesyn a'r llygad, weithiau'n lledaenu i'r bochau.

Defnydd: Perai asidig ac egr iawn, ac felly'n anaddas fel un amrywiaeth, ond mae iddo flas ffrwythus a chorff da i ychwanegu rhywbeth cadarnhaol at gyfuniad. DP 1.052, asid 1.1%, tannin 0.21%.

Llanover (P413)

Canfuwyd y goeden hon ar safle hen fferm ar Ystâd Llanofer, ger y Fenni.

Ffrwyth: Mae'r gellyg yn grwn-wastad i grwn-gonigol. Croen gwyrdd tywyll y gellir ei orchuddio'n bennaf gan groen garw corciog. Mae'r goes yr un hyd ag uchder y ffrwythau, a gall fod ychydig yn grwm.

Defnydd: Fe'u defnyddir gan Sally Perks o *Raglan Cider Mill* i wneud perai.

Llanyrafon Manor (P430)

Canfuwyd yr ellygen hon yng ngerddi Llanyrafon Manor yng Nghwmbrân. Bu'r plas yn gartref i weithwyr fferm ar un adeg ac roedd y perllannau afal a gellyg yn fodd i weithwyr fferm gael seidr a pherai yn ystod tymor y cynhaeaf gwair. Parhaodd y fferm i gynhyrchu seidr yn dilyn yr ail Ryfel Byd a pharhaodd yn hunangynhaliol at ei gilydd. Heddiw, mae amheuaeth ynghylch safle'r felin seidr, er y gallai fod wedi bod ar ddiwedd yr Ysgubor Ddi-do.

Gwybodaeth o www.llanyrafonmanor.org

Ffrwyth: Gellyg crwn-gonigol gyda chroen melynwyrdd golau. Rhimynnau o groen garw, tywyll o amgylch y coesyn, gyda chroen garw goleuach o amgylch y llygad. Nifer o lentiselau bach, brown a gwyrdd. Coesau canolig eu maint a allai fod fymryn yn grwm.

Defnydd: Mae'r blas yn felys a dymunol – tybir mai gellyg bwyta ydynt.

Mill Bank Jessica (P410)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar fferm ym Mhenallt, Trefynwy, ac mae'n un o grŵp o goed perai hynafol y credir eu bod oddeutu 200 oed. Mae'r goeden benodol hon yn eithaf mawr, y credir ei bod tua 150 oed, ac sy'n ymddangos ei bod wedi tyfu o grachgoeden o'r cyltifar gwreiddiol sydd, bellach, wedi marw. Mae'r amrywiaeth wedi'i henwi ar ôl y fferm y mae'n tyfu arni ac ar ôl diweddar wraig y perchennog oedd yn gofalu am y coed ers dros 20 mlynedd.

Blodyn: Petalau'n gyfan gwbl wyn gydag antherau coch / piws tywyll.

Ffrwythau: Ffrwyth gwyrdd bach, purffurf gan fwyaf. Mae'r croen garw, browngoch i'w gael gan fwyaf o amgylch gwaelod y llygad ond gall orchuddio rhan sylweddol o'r croen. Mae'r lentiselau'n amlwg ac yn frownwyrdd. Gall bod rhywfaint o gochder pinc ar yr ochr sy'n cael yr haul. Mae'r coesau'n hir ac yn gymharol fain, a fymryn ar ongl.

Defnydd: Credir mai gellygen perai ydyw, gan ei bod mewn perllan gyda gellyg perai eraill megis Betty Prosser a Gellygen Goch Blakeney.

Monmouth Red (P034)

Fe'i canfuwyd gan Dave Matthews mewn nifer o berllannau yn Sir Fynwy, gan gynnwys Broom House a Fferm Newbolds (dengys mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au berllannau ar y ddau safle hyn).

Blodyn: Petalau'n gyfan gwbl wyn gydag antherau piws tywyll.

Ffrwythau: Ffrwyth purffurf yn amrywio o 6 i 8cm o uchder. Mae'r croen yn felyn pan fo'n aeddfed gyda nifer o lentiselau brown. Gall bod cochder oren ysgafn ar yr ochr sy'n cael yr haul, a rhywfaint o groen garw, browngoch o amgylch y coesyn a'r llygad. Mae'r goes oddeutu 1cm a gall fod yn drwchus ac yn gigog. Mae'r ffrwythau'n syrthio'n gynnar, fel arfer ym mis Medi.

Defnydd: Blas melys gyda rhywfaint o asid – mae'n gwneud Perai niwtral, sy'n addas ar gyfer

ei gyfuno. DP 1.054, asid 0.6%, tannin 0.07%.

Perai Hafod (P418)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu ar Fferm yr Hafod yn Llanfocha mewn ardal y gwyddys y bu perllannau yno ar un adeg. Mae gan y fferm hen felin seidr gerrig a gwasg seidr bren, fawr ar y safle o hyd.

Ffrwythau: Mae gellyg yn fach i ganolig, gyda chroen gwyrdd a lentiselau gwyrddfrown bychain. Hirgrwn yw'r siâp yn bennaf, gyda thuedd i fod yn burffurf. Gall bod rhyw gochder oren golau ar yr ochr sy'n cael yr haul. Mae'r croen garw, browngoch i'w weld o amgylch y coesyn a'r llygad gan fwyaf, gyda rhai smotiau ar y bochau. Mae hyd y coesyn oddeutu hanner uchder y ffrwyth a gall fod yn eithaf trwchus.

Defnydd: Perai - melin a gwasg ar y safle a chânt eu defnyddio i wneud perai gan Sally Perks o *Raglan Cider Mill*.

Perai St Maughans (P417)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu ar Fferm yr Hafod yn Llanfocha mewn ardal y gwyddys y bu perllannau yno ar un adeg. Mae gan y fferm hen felin seidr gerrig a gwasg seidr bren, fawr ar y safle o hyd.

Ffrwyth: Gellyg bychain, crwn i grwn-gonigol eu siâp. Croen gwyrdd gyda chochder ar yr ochr sy'n cael yr haul a nifer o lentiselau gwyrddfrown bychain. Mae'r croen garw, browngoch i'w weld o amgylch y coesyn a'r llygad gan fwyaf, gyda rhai smotiau o amgylch y coesyn a'r bochau. Mae'r coesyn brown golau'n hir iawn a gall fod yn llydan ar y pen.

Defnydd: Perai - melin a gwasg ar y safle a chânt eu defnyddio i wneud perai gan Sally Perks o *Raglan Cider Mill*.

Potato Pear (P032/P068)

Gwyddys bod yr amrywiaeth hon yn cael ei thyfu a'i defnyddio'n gyffredin yn ardal Rhaglan. Canfu Dave Matthews un yn tyfu mewn hen berllan yn Llantrisant, Brynbuga, ac yna fwy mewn nifer o safleoedd eraill o amgylch Rhaglan. Cyfeiria enw'r amrywiaeth at y ffaith bod y ffrwythau'n debyg i datws.

Blodyn: Petalau'n gyfan gwbl wyn ac antherau pinc tywyll. Yn blodeuo ganol mis Ebrill.

Ffrwyth: Ffrwythau crwn bach gyda chroen gwyrdd wedi'i orchuddio gan groen garw, browngoch yn bennaf - yn debyg i datws. Coes hir a preniog.

Defnydd: Yn gwneud Perai sych-ganolig gyda nodweddion sitrws. Persawr ysgafn a blas tenau ond gallai fod yn ddefnyddiol mewn cyfuniad. DP 1.045, asid 0.3%, tannin 0.07%.

Pwll Pisgod (P056)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar Fishpool Farm yn Llanddingad - hen goeden uchel iawn sy'n rhoi cnwd mawr. Mae gan y fferm wasg seidr draddodiadol wrth ymyl y llety byw ac mae seidr a pherai wedi'u gwneud yno ers cyfnod maith. Mae coed wedi'u marcio ar fap degwm yr 1840au a mapiau Arolwg Ordnans dilynol.

Ffrwyth: Mae'r gellyg yn fach a bron yn sfferig, yn digwydd mewn clystyrau, pump ar y tro yn aml iawn. Croen melynwyrdd gyda chochder ar yr ochr sy'n cael yr haul. Mae'r lentiselau'n fychain, yn wyrdd ac yn niferus. O amgylch y llygad mae'r croen garw, browngoch yn bennaf, gyda rhywfaint yn ymledu i'r bochau. Yn aeddfedu ym mis Medi.

Defnydd: Lefel uchel o dannin a chaled iawn – gellyg coginio neu berai.

Rhydlydan (P021)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon gan Paul Davies fel un goeden yn Fferm Rhydlydan ym Mhumsaint, Sir Gaerfyrddin ym 1994, yn ystod arolwg Cyngor Cefn Gwlad Cymru o berllannau yn ardal Llandeilo.

Blodyn: Gwyn gan fwyaf gyda rhywfaint o binc. Yn blodeuo ganol mis Ebrill.

Ffrwyth: Gellyg purffurf oblad a all fod hyd at 7cm o uchder a 6cm mewn diamedr. Mae'r croen yn wyrdd heb unrhyw gochder, a lentiselau gwyrdd tywyll nad ydynt yn amlwg. Ychydig o groen garw, browngoch o amgylch gwaelod y llygad yn unig. Mae'r coesyn yn hir, tua 2cm. Disgynna'r ffrwythau'n hwyr ym mis Hydref neu ddechrau mis Tachwedd.

Defnydd: Perai cytbwys gydag ansawdd da i'r persawr - gellid eu defnyddio fel un amrywiaeth neu mewn cyfuniadau. Asid 0.3%, dim taninau.

Sant Gwytherin (P048)

Hen goeden gellyg fawr iawn yn Llys Llanwytherin, Llanwytherin, Sir Fynwy. Dengys mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au berllannau ar y safle. Mae'r goeden wedi'i hastudio gan adnabyddwr coed hynafol Sir Fynwy, ac mae siawns ei bod yn un o'r coed gellyg mwyaf a hynaf yn y Deyrnas Unedig, hyd yn oed yn Ewrop. Enwyd Llanwytherin ar ôl Sant Gwytherin.

Ffrwyth: Ffrwythau conigol, canolig eu maint. Mae'r croen yn felyn gyda lentiselau brown. Rhyw gymaint o groen garw, browngoch o amgylch y coesyn a'r llygad - tywyllach o amgylch y coesyn. Mae'r coesau'n hir, yn frown golau ac yn grwm. Mae'r ffrwythau yn anterth eu haeddfedrwydd yn ystod wythnos gyntaf mis Medi.

Defnydd: Fe'u defnyddir i wneud Perai gan y perchennog - peri rhesymol ei gydbwysedd sy'n addas ar gyfer ei gyfuno. DP 1.053, asid 0.6%, tannin 0.06%.

Seren Scethrog (P459)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar fferm yn Scethrog, ger Aberhonddu. Dengys mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au berllannau ar y fferm, y mae'r goeden hon yn rhan weddill ohonynt.

Ffrwyth: Ffrwythau crwn iawn i grwn-wastad, bychain i ganolig eu maint. Mae'r croen yn felynwyrdd gyda chochder pinc ar yr ochr sy'n cael yr haul. O amgylch y coesyn a'r llygad y mae'r croen garw, browngoch gan bennaf. Mae'r lentiselau'n fach iawn, yn frownwyrdd ac yn wan. Mae'r coesyn yn ysgafn ac yn drwchus.

Defnydd: Fe'u defnyddir i wneud Perai gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* - mewn cyfuniad.

Top Tree (P041/P045/P071)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon mewn hen berllan yn Llantrisant, Brynbuga, sydd ar fapiau o 1780 ac y rhoddwyd gorchymyn cadwraeth arni yn y 1940au. Defnyddir yr amrywiaethau yn y berllan gan Jessica Deathe o *Three Saints* i wneud Perai a seidr. Mae'r goeden hon yn enfawr ac yn unionsyth, ar frig y llethr. Cyfeiria'r enw at leoliad y goeden a hefyd at y ffaith fod Jessica Deathe o'r farn mai hon yw ei choeden orau ar gyfer gwneud Perai.

Blodyn: Cynnar a gwyn

Ffrwyth: Mae'r ffrwythau'n fach iawn ac yn niferus, ac yn burffurf eu siâp. Mae'r croen yn lliw melyn mwstard gyda rhywfaint o gochder oren. Croen garw, browngoch o amgylch y llygad, a rhai smotiau o amgylch y coesyn a'r bochau.

Defnydd: Mae'n gwasgu'n dda ac yn cynhyrchu sudd da iawn a pherai cytbwys gyda phersawr da - addas fel un amrywiaeth. Mae melysrwydd fel caramel iddo. SG 1.061, asid 0.5%, tannin 0.06%.

Tredomen Twins (P456)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn Fferm Tŷ Canol yn Nhredomen, ger Aberhonddu, y gwyddys y bu perllannau yno ar un adeg. Defnyddir y coed ar y fferm hon i wneud Perai gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider*. Cyfeiria "Efeilliaid" at y ffaith bod boncyff y goeden wreiddiol wedi'i rhannu'n ddwy.

Ffrwyth: Gellyg canolig eu maint, siâp crwn-gonigol i hirgrwn. Croen melynwyrdd gyda lentiselau gwyrdd ysgafn a rhywfaint o gochder pinc. Ychydig iawn o groen garw, browngoch sydd, dim ond rhai smotiau o amgylch y coesyn. Mae'r coesau'n drwchus iawn, yn fyr ac yn wyrdd.

Defnydd: Perai - mewn cyfuniad.

Trothy (P059)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon fel coeden fach ar Fishpool Farm yn Llanddingad. Mae gan y fferm wasg seidr draddodiadol wrth ymyl y llety byw ac mae seidr a pherai wedi'i wneud ers cyfnod hir. Mae coed wedi'u nodi ar fap degwm yr 1840au a mapiau Arolwg Ordnans dilynol. Daw enw'r amrywiaeth o Afon Troddi, y mae isafon fechan iddi'n llifo heibio i'r fferm.

Ffrwyth: Mae gellyg yn grwn-wastad i gonigol-grwn, gyda chroen gwyrdd. Nifer o lentiselau brown a smotiau o groen garw, browngoch dros y rhan fwyaf o'r croen, gyda chylch o groen brown goleuach o amgylch y llygad. Mae'r coesyn yn fyr, yn drwchus ac yn frown golau. Fel rheol, byddant yn ymddangos fel ffrwythau unigol, weithiau mewn grwpiau o hyd at dair. Ffrwythau'n aeddfedu ym mis Medi.

Defnydd: Cryn dipyn o sudd yn y cig, ond mae'r blas yn siarp. Mae wedi'i defnyddio i wneud Perai gan berchennog y goeden – mae'n gwneud Perai egr a allai fod yn addas ar gyfer un amrywiaeth ond efallai ei bod yn well mewn cyfuniad. DP 1.065, asid 0.4%, tannin 0.1%

Trysor Tredomen (P454)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn Fferm Tŷ Canol yn Nhredomen, ger Aberhonddu, y gwyddys y bu perllannau yno ar un adeg. Defnyddir y coed ar y fferm hon gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider* i wneud Perai.

Ffrwyth: Gellyg canolig eu maint, siâp crwn-gonigol i gonigol. Croen melynwyrdd gyda rhywfaint o gochder pinc ar yr ochr sy'n cael yr haul a lentiselau brown sy'n troi'n goch. Mae'r coesau'n drwchus iawn ac yn frownwyrdd eu lliw. Ychydig iawn o groen garw, browngoch, dim ond rhai smotiau o amgylch y coesyn.

Defnydd: Perai - mewn cyfuniad.

Ty Gwyn (P039)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon ar White House Farm yn Llanarth, Rhaglan. Mae'r goeden wreiddiol yn fawr iawn, ac mae'n rhoi cnwd mawr sy'n dwyn ffrwyth bob blwyddyn.

Ffrwyth: Gellyg bach i ganolig, yn fychan-gonigol i gonigol eu siâp. Mae'r croen yn wyrdd a gall fod â chochder pinc. Mae'r lentiselau'n frown ac yn amlwg. Ychydig o groen brown, rhyw gymaint o amgylch y coesyn a'r llygad. Mae'r coesyn yn hir, brown golau ac yn gigog.

Defnydd: Lefelau uchel o daninau – fe'u defnyddir i wneud Perai gan Sally Perks o *Raglan Cider Mill*.

Tynllywyn Wye Valley (P428)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon fel coeden fawr sy'n tyfu ar hen berllan ar Fferm Tynllywyn yn Llanfaredd, yn Nyffryn Gwy, ac a welir ar fapiau' Arolwg Ordnans ers yr 1880au. Mae'n hysbys bod y fferm wedi gwneud seidr a pherai yn y gorffennol.

Ffrwyth: Mae gellyg yn fyr-grwn-gronigol gyda chroen gwyrdd a all gochi. Mae'r lentiselau'n niferus, bychain a gwyrdd. Mae'r llygad yn fach gyda chylch o grach. Mae'r coesyn yn wyrdd a brown, a gall fod yn grwm ac ar fymryn o ongl. Mae'r ffrwythau'n aros yn eithaf caled ac yn aros ar y goeden hyd nes y cânt eu chwythu gan y gwynt.

Defnydd: Tybir mai gellyg perai ydynt- mewn hen berllan seidr a pherai, ac mae'n hysbys bod y ddau wedi'u gwneud ar y fferm.

Lluniau wedi'u rhoi gan berchennog y goeden.

Tywysog Tredomen (P457)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn Fferm Tŷ Canol yn Nhredomen, ger Aberhonddu, y gwyddys y bu perllannau yno ar un adeg. Defnyddir y coed ar y fferm hon i wneud Perai gan Andrew Jenkins o *Brecon Beacons Cider*.

Ffrwyth: Gellyg conigol, bach i ganolig eu maint gyda chroen felynwyrdd wedi'i orchuddio â lentiselau bach, brown. Mae croen garw, browngoch o amgylch y llygad, gyda smotiau bychain mewn mannau eraill. Mae'r coesyn yn fyr, trwchus a brownwyrdd.

Defnydd: Perai - mewn cyfuniad.

Water Cracking (P049/P051)

Hen goeden gellyg fawr iawn yn Llys Llanwytherin, Llanwytherin, Sir Fynwy. Dengys mapiau Arolwg Ordnans o'r 1880au berllannau ar y safle. Mae enw'r amrywiaeth yn cyfeirio at linell y ffynnon sy'n llifo'r tu ôl i'r coed.

Ffrwyth: Mae'r gellyg yn gonigol, gyda thuedd i fod yn burffurf, ac yn ganolig-fawr eu maint. Mae'r croen yn felynwyrdd gyda lentiselau bychain gwyrddfrown, ysgafn. O amgylch y coesyn mae'r croen garw, browngoch gan fwyaf gyda rhai smotiau ar y bochau. Mae'r coesyn yn hir a brown, ac mae ar fymryn o ongl. Yn amrywiaeth eithaf cynnar sy'n aeddfedu yn nhrydedd wythnos Awst.

Defnydd: Wedi'i ddefnyddio i wneud Perai gan berchennog y goeden - yn gwneud Perai cyffredin sy'n addas ar gyfer ei gyfuno. DP 1.053, asid 0.6%, tannin 0.06%.

Lluniau wedi'u rhoi gan berchennog y goeden .

AMRYWIAETHAU ERAILL TREFTADAETH CYMRU

Yn anffodus, mewn rhai achosion, nid oedd ffrwythau ar gael i dynnu eu lluniau neu i ysgrifennu disgrifiadau cywir ohonynt, felly mae'r adran hon yn cynnwys yr amrywiaethau y mae angen mwy o waith ymchwil arnynt ond sydd, er hynny, wedi'u cadarnhau trwy brofion DNA i fod yn amrywiaethau unigryw i Gymru.

Afalau

Afal y Cwmafan (A1784)

Daethpwyd o hyd i'r amrywiaeth hon yn tyfu mewn hen ardd â wal o'i chwmpas ger hen lwybr porthmyn gan Len Nicholas o Seidr Afal y Graig. Roedd yr ardd yn rhan o Dafarn y Bwlch, a fynychwyd gan borthmyn a fyddai'n llocio'u gwartheg yn y caeau hanner ceiniog i'w pesgi cyn mynd â nhw i'r farchnad yng Nghastell-nedd. O'r herwydd, credir mai amrywiaeth seidr a ddefnyddiwyd gan y dafarn ydyw (y gwyddys ei bod yn gwneud seidr yn y 1700au), oherwydd pe bai yn y caeau, byddai'r gwartheg wedi bwyta'r ffrwythau.

Defnydd: Seidr - mae afalau yn siarp gyda llawer o dannin.

Crunwere Beauty (A1799)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon yn tyfu mewn gardd yn Arberth, Sir Benfro. Mae'r goeden yn hen iawn - credir iddi gael ei phlannu oddeutu 1910 gan hen daid y perchennog presennol - ac nid yw wedi cynhyrchu fawr ddim ffrwythau ers rhai blynyddoedd. Cronwern yw enw'r plwyf lleol.

Blodyn: Yn gyfan gwbl wyn. Ail wythnos Mai.

Garreg Ddu Dylan (A1813) & Garreg Ddu Llwyd (A1814)

Canfuwyd y ddwy rywogaeth hyn yn tyfu mewn hen berllan ynghlwm wrth ffermdy yn Nhalog, Sir Gaerfyrddin. Credir bod y rhain yn debygol o fod yn amrywiaethau afalau seidr.

Marlow’s Welsh Beauty (A1772) & Marlow’s Welsh Bounty (A1773)

Canfuwyd y ddwy amrywiaeth hyn ar fferm yn Old Church Stoke, Trefaldwyn, sy'n perthyn i deulu Marlow. Credir bod y ddwy goeden yn eithaf hen. O’r ddwy, cyflwr Marlow’s Welsh Beauty yw’r gwaethaf, er ei bod yn parhau i roi cnwd- mae'n agos at yr hyn oedd yn fwthyn glöwr ar un adeg. Mae Marlow’s Welsh Bounty yn goeden fawr ac yn rhoi cnwd cyson.

Red Stag (A1770)

Mae'r amrywiaeth hon yn tyfu ar ddiwedd cae yn Llanwynnell, Sir Fynwy, ar ymyl coetir. Mae'r teulu sy'n berchen ar y tir yn credu bod y goeden yn hen iawn - mae ganddynt wybodaeth amdani ers sawl cenhedlaeth. Cyfeiria'r enw at y carw mawr coch a welwyd unwaith yn y goedwig gan arolygwyr Cymdeithas y Pridd.

Ffrwyth: Afalau o faint canolig gyda chroen gwyrdd llachar a chochder dwfn ar yr ochr sy’n cael yr haul. Yn syrthio’n gynnar yn yr hydref ond maent yn para’n hir iawn ar y ddaear.

Defnydd: Blas siarp iddynt, nid yw’r bywyd gwyllt yn eu bwyta – wedi’u defnyddio gan berchennog y goeden i wneud seidr a brandi afal seidr.

Gellyg

Capel Hir Early & Capel Hir Late

Canfuwyd yr amrywiaethau hyn o ellyg Perai yn Fferm Capel Hir yng Nghwmdu, Llandeilo.

Ffrwythau cynnar Capel Hir: Gellyg crwn-gonigol i hirgron gyda chroen melynwyrdd a rhywfaint o groen garw, browngoch o amgylch y coesyn a'r llygad. Amlgoesog, yn aeddfedu'n gynnar yn y tymor.

Ffrwythau hwyr Capel Hir: Gellyg oblad gyda chroen gwyrdd, yn aml gyda llawer o groen garw, browngoch. Un coesyn, yn aeddfedu'n hwyr yn y tymor.

Defnydd: Perai

Llanarth Early (P035)

Wedi'i chanfod ar Fferm Tynewydd yn Llanarth, Rhaglan, mae'r hen goeden hon wedi'i defnyddio fel coeden wasael ac i wneud Perai. Mae'r enw'n cyfeirio at y lleoliad a'r ffaith bod y ffrwyth yn aeddfedu ac yn gollwng yn eithaf cynnar yn y tymor.

Ffrwythau: Mae'r gellyg yn nodweddiadol burffurf, yn amrywio o 6-8cm mewn uchder. Mae wyneb cwyr a melyn ar y croen, gyda rhyw gochder oren, disglair yn gorchuddio cyfran sylweddol o'r croen. Mae'r coesau'n breniog ac yn denau. Mae'r ffrwythau'n aeddfedu'n gynnar iawn, gan ollwng ym mis Awst.

Defnydd: Mae'r blas yn eithaf melys, wedi'i defnyddio i wneud Perai ond gallai hefyd fod yn ellygen fwyta.

Montagu's Endurance (P400)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon mewn perllan yn Nhregaer, Trefynwy, a blannwyd gan y Parchedig Montagu Wyatt a symudodd i'r tŷ yn y 1850au.

Summer Pear (P055)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon o ellyg mewn nifer o leoliadau o amgylch Sir Fynwy gan Dave Matthews. Mae'r ffrwythau'n burffurf ac mae ganddynt groen melyn a choch trawiadol iawn. Yn debyg iawn i 'Painted Lady' a Gellygen Goch Blakeney, ond mae profion DNA wedi profi bod hon yn amrywiaeth nad yw wedi'i chofnodi o'r blaen.

Pitt Pear (P038)

Canfuwyd yr amrywiaeth hon o ellyg Perai yn Pitt Farm ger Rhaglan, Sir Fynwy.

Ffrwyth: Gellyg gwyrdd bach heb unrhyw gochder. Lwmp neilltuol iawn yn ymuno'r coesyn â'r ffrwyth, heb waelod coesyn. I'w gweld yn debyg i'r "Dead Boy" (gweler *Pears of Gloucestershire: Perai Pears* gan Charles Martell). Yn anffodus, nid yw'r goeden wreiddiol yn bwrw ffrwyth yn rheolaidd - nid oedd ffrwythau arni yn 2017 nac yn 2018.

Defnydd: Siarp gyda thaninau - mae Sally Perks o *Raglan Cider Mill* wedi'u defnyddio i wneud Perai.

Yorke's Perai (P046)

Canfuwyd y goeden hon ar fferm sy'n perthyn i'r teulu Yorke ger y Fenni. Mae'n hysbys bod yr amrywiaeth wedi'i defnyddio i wneud Perai.

Ffrwythau y credwyd yn flaenorol eu bod o Gymru

Isod ceir rhestr o afalau a gellyg y credwyd yn flaenorol eu bod yn tarddu o Gymru, fodd bynnag ers dyfodiad profion DNA datgelwyd eu gwir darddiad:

Math y Ffrwyth	Enw "Cymreig"	Enw neu darddiad gwirioneddol
Afal	Broom	Hangdown
Afal	Gwell na Mil	King of the Pippins
Afal	Afal Champagne	Norfolk Royal
Afal	Upright French	Lloegr
Gellygen	Early St.Brides	Normannischen ciderbirne
Gellygen	Welsh Gin	Powick Jennet

GWEFANNAU DEFNYDDIOL

Mae modd cael rhagor o wybodaeth am brosiect Treftadaeth Perllannau a Seidr yng Nghymru a gwybodaeth arall am gynhyrchwyr Seidr a Pherai Cymru ar ein gwefan:

- Cymdeithas Perai Seidr Cymru: https://www.welshcider.co.uk/
- Mae modd gweld archif Stori Fodern Gwneud Seidr Prifysgol De Cymru ar wefan Casgliad y Werin Cymru (mae'r dolenni oddi ar ein gwefan ein hunain hefyd) https://www.peoplescollection.wales/users/27806

Ymhlith gwefannau defnyddiol eraill mae:

- Marcher Apple Network: http://www.marcherapple.net/
- Y National Fruit Collection: http://www.nationalfruitcollection.org.uk/
- Fruit ID: http://www.fruitid.com/
- John Worle http://www.johnworle.co.uk/
- Ian Sturrock & Sons: http://www.iansturrockandsons.co.uk/
- Coed Ffrwythau Dolau Hirion: http://www.applewise.co.uk/
- Tom the Appleman https://www.tomtheappleman.co.uk/
- Canolfan Genedlaethol y Gellyg Perai: https://www.nationalPeraipearcentre.org.uk/
- Seidr a Meithrinfa Mynyddoedd Cymru http://welshmountaincider.com/
- Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl: https://ptes.org/
- Cymdeithas Genedlaethol Gweuthurwyr Seidr: https://cideruk.com/

LLYFRAU DEFNYDDIOL

- *Welsh Marches Pomona* gan Michael Porter (Marcher Apple Network)
- *The Gloucestershire Pomona Series: Native Apples of Gloucestershire* gan Charles Martell
- *The Gloucestershire Pomona Series: Perai Pears* gan Charles Martell
- *Cider Apples* gan Liz Copas
- *Bulmer's Pomona* gan H.P Bulmer Ltd
- *Craft Cider Making* gan Andrew Lea